

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru: Dysgu o Grenfell

# Adolygiad Thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub:

Dan Stephens QFSM, Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub

Steve Bryant, Ymgynghorydd Tân ac Achub Cynorthwyol
Llywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2021
WG42080 ISBN digidol 978-1-80082-883-4

Adolygiad Thematig sy'n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a chefndir | Tudalen 2 |
| Methodoleg | Tudalen 2 |
| Crynodeb Gweithredol | Tudalen 3 |
| Canfyddiadau – argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell | Tudalen 4 |
| Deunyddiau adeiladu ar gyfer adeiladu preswyl uchel iawn | Tudalen 4 |
| Gwybodaeth am ddiffodd tân | Tudalen 4 |
| Cynlluniau | Tudalen 4 |
| Lifftiau diffodd tân | Tudalen 5 |
| Rheoli – Cyfathrebu mewn digwyddiadau | Tudalen 5 |
| Galwadau brys | Tudalen 6 |
| Gorchymyn a rheoli | Tudalen 6 |
| Cyfarpar | Tudalen 7 |
| Ymarfer nodedig | Tudalen 7 |
| Canfyddiadau – materion gweithredol ehangach | Tudalen 8 |
| Gwneud penderfyniadau am ddigwyddiadau difrifol a defnyddio Model Gwneud Penderfyniadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub | Tudalen 9 |
| I ba raddau y mae athrawiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn cyd-fynd â'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol | Tudalen 11 |
| Y berthynas rhwng canllawiau gweithredol a Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle | Tudalen 12 |
| Gweithdrefnau gorchymyn a rheoli ar gyfer Offer Anadlu a diffodd tân yn dactegol | Tudalen 13 |
| Effeithlonrwydd proses Sicrwydd Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru | Tudalen 14 |
| Canfyddiadau – i ba raddau mae argymhellion yr Adolygiad Thematig blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith | Tudalen 15 |
| Cydnabyddiaeth | Tudalen 17 |
| Argymhellion | Tudalen 17 |

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a chefndir | Tudalen 2 |
| | |


## Cyflwyniad a chefndir

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cam 1 Ymchwiliad Tŵr Grenfell (GTI), gofynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i mi sefydlu mecanwaith ar gyfer adrodd ar y camau a gymerwyd gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn unol â’r argymhellion yn adroddiad Cam 1 GTI.

Roeddwn o’r farn mai’r ffordd orau o wneud hyn fyddai drwy gynnal Adolygiad Thematig gan ystyried i ba raddau roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi mynd i’r afael â’r argymhellion yn adroddiad Cam 1 GTI a oedd yn berthnasol iddynt yn uniongyrchol (roedd nifer o argymhellion wedi’u cyfeirio’n benodol at Frigâd Dân Llundain a sefydliadau eraill yn Llundain). Cyhoeddwyd yr Adolygiad Thematig diwethaf o’r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn gynnar yn 2017 gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub ar y pryd, Des Tidbury, dan y teitl ‘Dysgu gwersi i osgoi digwyddiadau diogelwch difrifol – pa mor dda y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau i wella diogelwch y cyhoedd a diffoddwyr tân’. Roedd yr Adolygiad hwn yn gwneud 8 argymhelliad ynghylch dysgu gwersi o ddigwyddiadau arwyddocaol. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn berthnasol yng nghyd-destun tân Tŵr Grenfell, er bod yr Adolygiad ei hun wedi cael ei gyhoeddi cyn y digwyddiad. Roeddwn yn teimlo felly y byddai’n briodol ystyried canfyddiadau’r Adolygiad Thematig hwn yn erbyn 8 argymhelliad Adolygiad Thematig 2017.

Ar ôl darllen adroddiad Cam 1 GTI yn fanwl, rwyf wedi nodi nifer o faterion gweithredol sy’n berthnasol i’r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru nad ydynt yn cael eu cydnabod yn benodol yn adroddiad Cam 1 GTI na’i argymhellion. Mae materion o’r fath yn cynnwys defnyddio Model Gwneud Penderfyniadau gweithredol y Gwasanaeth Tân ac Achub, gweithdrefnau rheoli a gorchymyn Offer Anadlu, a thactegau diffodd tân. Mae’r materion hyn yn gyffredin i bob math o ddigwyddiad ac yn sicr nid ydynt yn unigryw i ddigwyddiadau cysylltiedig ag adeiladau uchel iawn, sef yr hyn mae adroddiad Cam 1 GTI yn canolbwyntio arno wrth reswm.

Mae’r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Adolygiad Thematig penodol i argymhellion adroddiad Cam 1 GTI. Mae hefyd yn ystyried y materion gweithredol ehangach nad ydynt wedi’u nodi’n benodol yn adroddiad Cam 1 GTI, ond yr wyf wedi’u nodi fel rhai sy’n berthnasol i’r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Yn olaf, mae’n ystyried i ba raddau y mae’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi mynd i’r afael ag 8 argymhelliad Adolygiad Thematig 2017.

## Methodoleg

Ar 30 Tachwedd 2019 ysgrifennais at y 3 Prif Swyddog Tân yn gofyn am eu hymatebion i argymhellion adroddiad Cam 1 GTI ac yn eu hysbysu fy mod yn bwriadu defnyddio’r ymatebion i ffurfio sail i Adolygiad Thematig er mwyn rhoi’r sicrwydd angenrheidiol i’r Dirprwy Weinidog.

Ar ôl adolygu’r ymatebion, ysgrifennais at y pwyntiau cyswllt a enwebwyd yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub ar 31 Ionawr 2020 gan amgáu tabl a oedd yn cynnwys yr argymhellion o’r GTI roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio arnynt, ynghyd â’r prif feysydd asesu. Mae copi o’r llythyr ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1. Dewisais yr argymhellion gan fy mod yn credu mai’r rhain oedd fwyaf perthnasol i’r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Darparwyd rhesymeg fer yn egluro pam y

Adolygiad Thematig sy'n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

dewiswyd pob argymhelliad a sut yr eir ati i farnu i ba raddau y rhoddwyd yr argymhelliad ar waith. Roedd yr argymhellion a ddewiswyd yn rhai gweithredol yn bennaf.

Dywedais wrth y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub fy mod yn bwriadu cynnal yr Adolygiad Thematig mewn dau gam. Yn gyntaf, cynigiais gynnal adolygiad bwrdd gwaith o ganllawiau gweithredol a pholisi'r Gwasanaethau Tân ac Achub sy'n berthnasol i'r argymhellion, gyda chymorth yr Ymgynghorydd Tân ac Achub Cynorthwyol.
Wedi hynny, cynigiais gymryd camau dilynol yn ôl yr angen drwy gynnal trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub ac ymweld â'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Gofynnom am ymatebion gan y Gwasanaethau Tân ac Achub erbyn 28 Chwefror 2020. Ar ôl hynny, roeddem yn bwriadu cwblhau'r adolygiad bwrdd gwaith erbyn diwedd mis Ebrill, ac unrhyw waith maes erbyn diwedd mis Gorffennaf. Y bwriad oedd cynhyrchu'r adroddiad hwn erbyn mis Hydref 2020.

Cawsom ymatebion sylweddol, cynhwysfawr a thrylwyr gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub. O ganlyniad i bandemig Covid bu'n rhaid gohirio'r broses o gwblhau'r adolygiad bwrdd gwaith tan ddechrau mis Awst, gyda chyfarfodydd dilynol yn cael eu cynnal o bell drwy gydol mis Awst a mis Medi. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn drwy Teams a Skype gyda Swyddogion Arweiniol sy'n gyfrifol am hyfforddiant Rheoli Digwyddiadau ac Offer Anadlu, Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle a Sicrwydd Gweithredol. Darparwyd cryn dipyn o wybodaeth bellach gan Swyddogion Arweiniol yn dilyn ceisiadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfarfodydd dilynol. Roedd hyn yn ychwanegol at yr wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gyfer yr adolygiad bwrdd gwaith.

Roedd lefel yr ymgysylltu gan bob Swyddog drwy gydol yr Adolygiad Thematig yn rhagorol. Rwy'n cydnabod y pwysau roedd yr Adolygiad hwn yn ei roi ar Swyddogion unigol er gwaethaf ein hymdrechion i gyfyngu ar ei effaith. Doedd dim byd yn ormod o drafferth ac nid yw ond yn iawn ac yn briodol fod hynny'n cael ei gydnabod yn yr adroddiad hwn (gweler Cydnabyddiaeth).

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi buddsoddi amser, ymdrech ac adnoddau sylweddol i ymateb i dân Tŵr Grenfell. Gwnaed llawer o'r gwaith hwn cyn cyhoeddi adroddiad Cam 1 GTI, i gefnogi camau gweithredu ehangach a gydlynwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân.

Roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu dangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn pob un ond un o argymhellion y GTI y dewiswyd canolbwyntio arnynt yn yr Adolygiad Thematig. Yr eithriad oedd Argymhelliad 33.20, sy'n ymwneud â chyfathrebu cyfarwyddyd goroesi tân yn fyw i'r canolbwynt diogel, oherwydd nid oes ateb technegol yn bodoli ar hyn o bryd. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith yr adroddwyd arno eisoes i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd ym mis Rhagfyr 2019.

Roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnig tystiolaeth o ymarfer nodedig sydd wedi'i nodi ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Yn ystod yr Adolygiad, nodais nifer o faterion nad oeddent wedi'u nodi'n benodol naill ai ym mhrif gorff adroddiad Cam 1 GTI neu yn ei argymhellion. Mae'r materion hyn yn cynnwys defnyddio Model Gwneud Penderfyniadau gweithredol y Gwasanaeth Tân ac Achub, gweithdrefnau rheoli a gorchymyn ar gyfer Offer Anadlu, a thactegau diffodd tân.

Adolygiad Thematig sy'n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

Rwyf yn gwneud nifer o argymhellion i'r Gwasanaethau Tân ac Achub eu hystyried yng nghyswllt y materion hyn yn yr adroddiad hwn.

Wrth ystyried i ba raddau y mae'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gweithredu ar argymhellion Adolygiad Thematig 2017, 'Dysgu gwersi i osgoi digwyddiadau diogelwch difrifol – i ba raddau y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau i wella diogelwch y cyhoedd a diffoddwyr tân', cynigiwyd tystiolaeth gref ar gyfer 6 o'r 8 argymhelliad. Mae angen gwneud rhagor o waith i sefydlu i ba raddau y mae'r 2 argymhelliad sy'n weddill wedi cael eu gweithredu. Ar ôl i'r gwaith hwn ddod i ben, byddaf yn cyflwyno fy nghanfyddiadau i'r Dirprwy Weinidog ar wahân.

Yn gyffredinol, rwyf o'r farn bod y gwaith a wnaed gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub i ragweld ac ymateb i argymhellion adroddiad Cam 1 GTI wedi lleihau i raddau sylweddol y tebygolrwydd o wynebu canlyniadau mor drychinebus mewn digwyddiad yng Nghymru.

## Canfyddiadau – argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell

Mae tabl ar gyfer pob Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n nodi eu hymateb i argymhellion y GTI ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 2. Mae crynodeb wedi'i gydgrynhoi o'r ymatebion wedi'i ddarparu o dan yr 8 maes pwnc isod, sydd wedi'u codi'n uniongyrchol o adroddiad Cam 1 GTI.

## Deunyddiau Adeiladu ar gyfer Adeiladu Preswyl Uchel Iawn

Mae un argymhelliad wedi'i ddewis o dan y maes pwnc hwn sy'n ymwneud â pha mor bwysig yw hi bod staff y Gwasanaethau Tân ac Achub ar bob lefel yn deall y risg y bydd tân yn ymledu drwy furiau allanol adeiladau uchel ac yn gwybod sut i adnabod hynny pan fydd yn digwydd. Roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi bod yn rhagweithiol wrth dynnu sylw at risgiau o'r fath. Rhoddodd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub fewnbwn damcaniaethol a hyfforddiant ymarferol ym maes diffodd tân i'w staff, a oedd yn cynnwys y risg o dân yn ymledu'n allanol. Fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wella ei hyfforddiant lleol drwy ddarparu hyfforddiant byw ar gyfer diffodd tân mewn adeiladau uchel, ar y cyd â Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr. Dangosodd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub eu bod yn cydymffurfio â'r argymhelliad hwn.

## Gwybodaeth am Ddiffodd Tân

Mae dau argymhelliad wedi'u dewis o dan y maes pwnc hwn. Mae'r cyntaf yn ymwneud â phwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth briodol am risg ar gael yn rhwydd wrth ddelio â digwyddiad mewn adeilad uchel iawn. Mae'r ail yn argymell bod Swyddogion gradd Rheolwr Criw ac uwch yn cael eu hyfforddi i gyflawni gweithdrefnau casglu risg. Dangosodd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub eu bod yn cydymffurfio â'r argymhellion hyn.

Mae gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub ddulliau cyson o gasglu gwybodaeth am risgiau penodol i'r safle. Mae'r rhain i gyd yn seiliedig ar Ganllawiau a gyhoeddwyd yn 2012 gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol bryd hynny, ynghylch y System Darparu Gwybodaeth am Risgiau Gweithredol (PORIS)[1]. Mae hyn yn cael ei gofnodi fel rhan o drefniant gweithredol safonol yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n sail i'r hyfforddiant gofynnol ar PORIS.

[1] Canllawiau Gweithredol y Gwasanaeth Tân ac Achub – Gwybodaeth am Risgiau Gweithredol

## Cynlluniau

Mae un argymhelliad wedi’i ddewis dan y maes pwnc hwn, sy’n ymwneud â’r angen i’r Gwasanaeth Tân ac Achub allu derbyn a storio cynlluniau llawr electronig a sicrhau eu bod ar gael i Reolwyr Digwyddiadau a rheolwyr Unedau Rheoli Tân. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru wedi cydymffurfio’n llwyr â’r argymhelliad hwn. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithio tuag at ei gwblhau ac felly ystyrir ei fod yn cydymffurfio’n rhannol adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn (er ei bod yn debygol y bydd y gwaith hwn wedi’i gwblhau erbyn cyhoeddi’r adroddiad hwn).

## Lifftiau Diffodd Tân

Mae dau argymhelliad wedi’u dewis o dan y maes pwnc hwn. Y cyntaf yw y dylai fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i berchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn gynnal archwiliadau rheolaidd o lifftiau dynodedig ar gyfer Diffoddwyr Tân. Yr ail yw y dylid profi’r mecanwaith sy’n caniatáu i ddiffoddwyr tân reoli’r lifft, os oes un wedi’i osod, a dylid cyflwyno’r canlyniadau’n fisol i’r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Er nad oes dyletswydd gyfreithiol ar berchnogion a rheolwyr adeiladau i gydymffurfio â’r argymhellion hyn, mae’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn cymryd camau sy’n sicrhau bod yr ysbryd a’r bwriad yn cael eu bodloni. Caiff lifftiau diffodd tân eu harchwilio fel rhan o’r broses archwilio ar gyfer gorfodi’r Gorchymyn Diogelwch Tân. Os canfyddir diffygion y tu allan i’r broses archwilio, naill ai yn sgil y perchennog neu’r rheolwr yn cynnal prawf, neu yn sgil staff gweithredol yn cynnal ymweliadau i gasglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, dylid sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i staff gweithredol drwy ddiweddaru’r system alw.

## Rheoli – Cyfathrebu mewn digwyddiadau

Mae’r pedwar argymhelliad o dan y maes pwnc hwn yn canolbwyntio ar adolygu polisïau ar gyfathrebu rhwng yr Uned Rheoli Tân a’r Rheolwr Digwyddiadau, darparu hyfforddiant i Reolwyr Digwyddiadau a rheolwyr Unedau Rheoli Tân, yn ogystal â sefydlu cyswllt cyfathrebu pwrpasol rhwng yr Uned Rheoli Tân a’r Rheolwr Digwyddiadau. Ystyrir bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydymffurfio â’r pedwar argymhelliad.

O ran adolygu polisïau ar gyfathrebu rhwng yr Uned Rheoli Tân a’r Rheolwr Digwyddiadau, dangosodd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru eu bod wedi ymgorffori’r Model Gwneud Penderfyniadau yn eu prosesau ar gyfer cyfathrebu â’u Huned Rheoli Tân ar y Cyd. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bwrw ymlaen ag adolygiad o’r gwaith hwn drwy ei Fforwm Dysgu Gweithredol.

Mae gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru raglenni datblygu ar waith i sicrhau bod y sgiliau a’r wybodaeth angenrheidiol yn cael eu caffael a’u cynnal ar gyfer Rheolwyr Digwyddiadau sy’n rheoli digwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn. Caiff hyn ei sicrhau drwy broses asesu, sy’n defnyddio cyfuniad o hyfforddiant ymarferol a thechnoleg ymgolli i efelychu sefyllfaoedd. Mae elfen bwysig o’r hyfforddiant a’r asesiad hwn yn cynnwys cyfathrebu effeithiol rhwng y digwyddiad ei hun a’r Uned Rheoli Tân, yn enwedig wrth reoli nifer o alwadau lle mae angen rhoi cyfarwyddyd ar oroesi tân. Yn yr

Adolygiad Thematig sy'n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

un modd, darperir hyfforddiant priodol i reolwyr Unedau Rheoli Tân i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r Rheolwr Digwyddiadau.

Mae'r dulliau ymarferol ar waith er mwyn sefydlu cysylltiadau rhwng Unedau Rheoli Tân a'r Rheolwr Digwyddiadau. Gwneir hyn yn bennaf drwy setiau radio Airwave ar offer tân neu mewn Unedau Rheoli Digwyddiadau, os ydynt yn bresennol. Mae pob Swyddog Tactegol yn cael ei radio Airwave ei hun, sy'n rhoi lefel ychwanegol o gadernid ar gyfer cyfathrebu. Gellir sefydlu cyswllt drwy ffôn symudol hefyd lle bo angen.

## Galwadau Brys

Mae pum argymhelliad wedi'u dewis o'r maes pwnc hwn.

Mae'r argymhelliad sy'n ymwneud â chofnodi gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân a'i harddangos ar yr un pryd yn y canolbwynt diogel ac mewn Unedau Rheoli Digwyddiadau wedi'i fodloni'n rhannol gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae gwaith wedi'i wneud i wella cysylltiadau cyfathrebu, gan gynnwys y gallu i osod Ystafell Reoli yn yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, er mwyn gallu trosglwyddo gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân yn uniongyrchol i'r uned Cymorth Rheoli yn y digwyddiad. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi rhoi systemau ar waith i sicrhau, os derbynnir galwadau 'gorlif' lle mae angen cyfarwyddyd goroesi tân, bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r digwyddiad ei hun. Does dim ateb technolegol yn bodoli ar hyn o bryd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarwyddyd goroesi tân yn y canolbwynt diogel neu'r Uned Rheoli Digwyddiadau (mae'r ymateb i argymhelliad 33.20 GTI yn cyfeirio at hyn).

Ystyrir bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydymffurfio â'r argymhellion sy'n ymwneud â rheoli newid o 'aros' i 'fynd allan' a sicrhau bod staff Unedau Rheoli Tân yn cael hyfforddiant penodol.

Er mwyn sicrhau bod digon o gadernid yn rhan o'r drefn ar gyfer delio â galwadau, mae'n rhaid i'r Unedau Rheoli Tân cynorthwyol gael mynediad at wybodaeth sydd ar gael yn yr Uned Rheoli Tân sydd wrth y llyw. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyd-leoli'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd gyda Heddlu De Cymru yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd. Yn yr un modd, mae Uned Rheoli Tân Gogledd Cymru wedi'i chyd-leoli â Heddlu Gogledd Cymru. O ran yr wybodaeth uniongyrchol sydd ar gael gan y Gwasanaethau Tân ac Achub fel sy'n ofynnol dan yr argymhelliad, mae trefniadau ar waith rhwng y ddwy Uned Rheoli Tân yng Nghymru sy'n caniatáu iddynt weld gwybodaeth y naill a'r llall. Ystyrir bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydymffurfio â'r argymhelliad hwn.

Er mwyn datblygu'r thema rhannu gwybodaeth, argymhellir bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gan y Gwasanaeth Ambiwlans a'r Heddlu. Mae'r gwaith hwn yn gofyn am ddull amlasiantaeth ehangach, sydd wedi'i nodi fel mater y mae angen i'r Cyd-Grŵp Gwasanaethau Brys roi sylw iddo. Ystyrir bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydymffurfio'n rhannol â'r argymhelliad hwn gan nad yw'r gwaith hwn wedi dod i ben eto.

## Gorchymyn a Rheoli

Mae pedwar argymhelliad wedi'u dewis o'r maes pwnc hwn. Mae'r rhain yn ymwneud â rheoli trefniadau a defnyddio adnoddau, gwella ansawdd yr wybodaeth a geir gan griwiau sy'n dychwelyd, cyfathrebu gwell rhwng yr Uned Rheoli Tân a'r digwyddiadau eu hunain, a'r posibilrwydd o gyfathrebu

uniongyrchol rhwng yr Uned Rheoli Tân a'r canolbwynt diogel er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fyw am y camau a gymerir mewn ymateb i gyfarwyddyd goroesi tân.

Mae'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn hyfforddi ac yn asesu eu staff ar reoli trefniadau a defnyddio adnoddau. O ran ansawdd yr wybodaeth a geir gan y timau Offer Anadlu sy'n dychwelyd, mae gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub weithdrefnau a hyfforddiant gweithredol safonol ar waith i fodloni'r argymhelliad hwn. Mae enghreifftiau'n cynnwys: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnwys ôl-friffio ar ôl digwyddiadau yng nghanlyniadau dysgu'r hyfforddiant byw ar ddiffodd tân mewn adeiladau uchel iawn gyda Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr; Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn defnyddio mapiau a diagramau i ategu nodiadau ysgrifenedig; a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn datblygu cofnod briffio/ôl-friffio ar gyfer Offer Anadlu gan ddefnyddio'r fframwaith cynllunio milwrol, Sefyllfa, Cenhadaeth, Gweithredu, Gweinyddu a Logisteg, a Chyfathrebu.

O ran datblygu system gyfathrebu rhwng yr Uned Rheoli Tân a'r Rheolwr Digwyddiadau, mae'r cyfarpar a'r gweithdrefnau gofynnol yn eu lle gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub. Gellir sefydlu cyfathrebiadau radio Airwave drwy'r offer tân sydd wedi'i ddynodi'n bwynt rheoli neu'r Uned Rheoli Digwyddiadau, os yw'n bresennol. Fel y nodwyd yn flaenorol, os yw'r Rheolwr Digwyddiadau yn Swyddog Tactegol bydd ganddo ei radio Airwave ei hun, sy'n rhoi lefel ychwanegol o gadernid. Mae Swyddogion Tactegol hefyd yn gallu cyfathrebu â'r Uned Rheoli Tân drwy ffôn symudol.

Ar hyn o bryd, nid yw'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad sy'n ymwneud â darparu llinell gyfathrebu uniongyrchol rhwng yr ystafell Reoli a'r canolbwynt diogel (argymhelliad TCG 33.20) oherwydd diffyg ateb technegol. Ystyrir bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydymffurfio â'r holl argymhellion eraill sy'n ymwneud â Gorchymyn a Rheoli.

## Cyfarpar

Mae dau argymhelliad wedi'u dewis o'r maes pwnc hwn.

Mae'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi uwchraddio offer cyfathrebu eu Hoffer Anadlu, sy'n golygu eu bod wedi bodloni gofynion yr argymhelliad sy'n ymwneud â darparu cyfarpar sy'n galluogi cyfathrebu â'r canolbwynt diogel, gan gynnwys wrth weithredu mewn adeiladau uchel iawn.

O ran sicrhau bod y system cymorth rheoli yn gweithredu'n llawn ym mhob Uned Rheoli Digwyddiadau a bod criwiau'n cael eu hyfforddi i'w defnyddio, mae'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi dangos eu bod yn cydymffurfio â'r argymhelliad. Mae'r swyddogaeth cymorth gorchymyn wedi'i hymgorffori'n llawn ym mhob un o drefniadau gweithredol safonol y Gwasanaethau Tân ac Achub, ac fe gaiff hyfforddiant priodol ei ddarparu. Mae gan bob Gwasanaeth Tân ac Achub Uned Rheoli Digwyddiadau bwrpasol, sy'n golygu bod modd darparu'r lefel ofynnol o gymorth gorchymyn a rheoli digwyddiadau ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fwy.

## Ymarfer nodedig

Cynigiodd pob Gwasanaeth Tân ac Achub enghreifftiau o ymarfer nodedig.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi bod yn rhagweithiol o ran deall y risgiau gweithredol sy'n deillio o ddigwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn, a pharatoi yn unol â hynny. Cyn tân Tŵr Grenfell, roedd gweithdrefnau ar gyfer adeiladau uchel iawn wedi cael eu datblygu o ganlyniad i

ddigwyddiadau eraill mewn adeiladau uchel iawn ledled y DU. Yn dilyn tân Tŵr Grenfell, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl ar gyfer Adeiladau Uchel Iawn i achub y blaen ar ganlyniadau'r GTI.

Oherwydd proffil ardal y Gwasanaeth a'r nifer fawr o adeiladau uchel, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gydnabod bod angen hyfforddiant ymarferol i ategu'r mewnbwn damcaniaethol a ddarparwyd i ddechrau. Gweithiodd gyda Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr i ddarparu hyfforddiant tân byw mewn adeiladau uchel iawn yn y cyfleuster pwrpasol yng Ngorllewin Bromwich. Darparwyd yr hyfforddiant hwn fesul cam gan ystyried proffil risg De Cymru, gyda staff yn ardaloedd Casnewydd a Chaerdydd yn cael eu hyfforddi'n gyntaf. Roedd canlyniadau dysgu'r hyfforddiant hwn yn cynnwys nodi methiant adeiladau a rhannu adeiladau i adrannau'n gynnar, ymlediad tân allanol a strategaethau awyru. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u hymgorffori yng nghanllawiau gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru erbyn hyn.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wrthi'n datblygu eu technoleg tân i wella eu hymateb i ddigwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn lle gellir sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn y digwyddiad ei hun cyn gynted â bod yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd yn diweddaru'r system alw. Mae hyn yn golygu bod y Rheolwr Digwyddiadau a'r Swyddogion yn y canolbwynt diogel neu'r Uned Rheoli Digwyddiadau yn gallu cael gafael ar wybodaeth i roi sail i'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol.

Mae'r ffrwd waith hon yn rhan o strategaeth ehangach i ddarparu mwy o gapasiti digidol yn y digwyddiadau eu hunain. Mae'r galluoedd sy'n cael eu datblygu yn cynnwys creu swigod Wi-Fi ar gyfer offer, darparu tabledi symudol i bob Swyddog Tactegol, defnyddio deunydd fideo byw o gamerâu corff a defnyddio system tracio GPS.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd darparu a chofnodi gwybodaeth fel sail i gynllunio a gwneud penderfyniadau gweithredol, yn enwedig yng nghyswllt lleoli timau Offer Anadlu. Gan adeiladu ar eu defnydd o Offer Anadlu sy'n rhoi Cyfarwyddyd Gweithredol a'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol dilynol ar gyfer Offer Anadlu, datblygwyd cofnod briffio/ôl-friffio, ac fe gaiff ei ddefnyddio bob tro y caiff Offer Anadlu ei wisgo. Aeth hyn yn ei flaen drwy Fforwm Dysgu Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau ledled y DU.

Mae'r cofnod yn defnyddio'r mnemonig milwrol, Sefyllfa, Cenhadaeth, Gweithredu, Gweinyddu a Logisteg, a Chynllun Cyfathrebu (SMEAC), a ystyrir yn system effeithiol ar gyfer cofnodi gwybodaeth weithredol, sy'n ei gwneud yn hawdd i staff ei deall. Mae'r cofnod yn cael ei ddarparu'n ddyblyg, sy'n golygu bod modd darparu gwybodaeth union yr un fath i'r Rheolwr Digwyddiadau ac eraill mewn digwyddiad er mwyn llywio'r gwaith cynllunio gweithredol.

## Canfyddiadau – materion gweithredol ehangach

Yn ystod yr Adolygiad, nodwyd nifer o faterion gweithredol ehangach. Dyma'r materion hynny;

- **Gwneud penderfyniadau am ddigwyddiadau difrifol a defnyddio Model Gwneud Penderfyniadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub.** Wrth astudio adroddiad Cam 1 GTI yn fanwl, ni welais lawer o dystiolaeth bod swyddogion Brigâd Dân Llundain yn glynu wrth egwyddorion Model Gwneud Penderfyniadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub nes i'r Comisiynydd Cynorthwyol ar y pryd, Andy Roe, fod yn bresennol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â chasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau, peryglon ac adnoddau, blaenoriaethu amcanion, a datblygu a chyfleu cynllun tactegol effeithiol yn glir.

- **I ba raddau y mae athrawiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn cyd-fynd â'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol.** Mae'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol yn seiliedig ar yr egwyddor o reoli peryglon a risg. Mae adnabod a deall gwybodaeth am beryglon yn elfen hanfodol o Fodel Gwneud Penderfyniadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub sy'n ymwneud â Sefyllfaoedd, ac felly mae'n hollbwysig er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol. Nid yw'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cysoni eu hathrawiaeth â'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol yn llawn eto.
- **Y berthynas rhwng canllawiau gweithredol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a'r broses o gasglu a defnyddio Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle.** Os yw canllawiau gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru wedi'u cysoni â'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol yn llawn, dylai staff feddu ar wybodaeth sylfaenol gadarn am beryglon cyffredinol, mesurau rheoli a thactegau mesurau rheoli. Gellir ategu'r wybodaeth hon drwy'r broses o gasglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle er mwyn darparu gwybodaeth am beryglon penodol i ddigwyddiadau fel sail i benderfyniadau gweithredol. Mae bod yn gwbl gyson â'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol yn gyfle i symleiddio'r broses o gasglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub.
- **Gweithdrefnau gorchymyn a rheoli ar gyfer Offer Anadlu a diffodd tân yn dactegol.** Nid yw'n glir o adroddiad y GTI a oedd Timau Offer Anadlu yn arwyddion galw dynodedig[2] neu a gawsant eu briffio i gyflawni technegau chwilio penodol. Byddai hyn wedi bod yn hollbwysig wrth gynnal archwiliadau chwilio a gweithredu ar wybodaeth y cyfarwyddyd goroesi tân. Er mwyn clirio llawr yn hyderus, byddai angen i Reolwr y Sector Chwilio wybod pa fflatiau oedd wedi cael eu harchwilio a gan ba dimau Offer Anadlu. Hefyd, nid yw'n glir a ystyriwyd cyfrifo cyfraddau llif tactegol y dŵr sydd ei angen i ddiffodd tân o'r maint a'r math hwnnw, ac a fyddai modd sicrhau cyfraddau llif o'r fath ai peidio. Pe sefydlid ar y dechrau ei bod yn mynd i fod yn anodd iawn os nad yn amhosibl diffodd y tân, byddai wedi bod yn bosibl penderfynu rhoi'r gorau i'r polisi aros a cheisio gwagio'r adeilad yn llwyr yn gynt.
- **Effeithlonrwydd proses Sicrwydd Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru.** Gall materion fel y rhai a nodwyd yn flaenorol ddigwydd mewn unrhyw ddigwyddiad. Dylai proses Sicrwydd Gweithredol effeithiol nodi materion a rhoi camau unioni ar waith i fynd i'r afael â nhw.

## Gwneud penderfyniadau am ddigwyddiadau difrifol a defnyddio Model Gwneud Penderfyniadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub

Mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ystyried a gweithredu'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol. Ategir y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau gan ganllawiau ategol o'r enw 'Rheoli digwyddiadau; Gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd' sydd â'r bwriad o ddarparu'r manylion y mae angen eu hymarfer a'u defnyddio er mwyn rheoli digwyddiadau'n bendant, yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae 'Rheoli digwyddiadau; Gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd' yn cyfeirio at y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol a ddatblygwyd gan Frigâd Dân Llundain yn y 1990au ac a oedd yn sail i gyhoeddiadau cyntaf yr hen Lawlyfrau Gwasanaeth Tân ac Achub ar Reoli Digwyddiadau, a'r rhai dilynol, a gyhoeddwyd cyn rhaglen y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol.

Mae'r fersiynau o'r Canllawiau Rheoli Digwyddiadau a gyhoeddwyd cyn y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol i gyd yn cynnwys disgrifiad manwl o bob cam o'r Model Gwneud Penderfyniadau wedi'u gosod yng nghyd-destun asesiad risg deinamig. Maent hefyd yn disgrifio'r broses y dylai Swyddog Rheoli Digwyddiadau – ar ôl casglu ac ystyried gwybodaeth am ddigwyddiadau, peryglon ac adnoddau

[2] Yn adroddiad Cam 1 GTI, cyfeirir at Dimau Offer Anadlu yn ôl enwau'r rhai oedd yn ei wisgo

Adolygiad Thematig sy’n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i’r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

– ei dilyn wrth ddefnyddio’r Model Gwneud Penderfyniadau i osod amcanion fel rhan o gynllun tactegol cyffredinol ac i adolygu’n barhaus i ba raddau y mae’r amcanion yn cael eu cyflawni. Mae’r disgrifiad manwl hwn yn absennol o’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol.

Mae’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol yn cynnwys deunydd helaeth ar wneud penderfyniadau. Mae’n rhoi disgrifiadau manwl o’r prosesau seicolegol a ddefnyddir gan Reolwyr Digwyddiadau i wneud penderfyniadau ac yn cyflwyno egwyddor y broses rheoli penderfyniadau. Fodd bynnag, nid yw’n cynnwys disgrifiad manwl o bob cam o’r Model Gwneud Penderfyniadau na disgrifiad o sut y dylai Rheolwr Digwyddiadau ddefnyddio’r model i ddatblygu cynllun tactegol, fel oedd wedi’i gynnwys yn y Llawlyfrau Gwasanaeth Tân ac Achub blaenorol. Credwn fod hyn yn hepgoriad sylweddol.

Mae dealltwriaeth o bob cam o’r Model Gwneud Penderfyniadau yn hanfodol er mwyn i Reolwyr Digwyddiadau wneud penderfyniadau effeithiol am ddigwyddiadau difrifol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran y newid i’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol sy’n seiliedig ar yr egwyddor o reoli peryglon a risg gan fod ‘Gwybodaeth am Beryglon’ yn elfen sylfaenol o’r maes ‘Sefyllfaoedd’ yn y Model Gwneud Penderfyniadau. Rydym yn dychwelyd at y pwynt hwn wrth ystyried i ba raddau y mae canllawiau gweithredol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn gyson â’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol, yn bennaf oherwydd bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnwys diagram y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol o’r Model Gwneud Penderfyniadau yn eu canllawiau gweithredol eu hunain (sy’n sicr yn arfer da os yw Rheolwyr Digwyddiadau’n deall yn llawn sut y dylid defnyddio’r Model Gwneud Penderfyniadau, ond gallai fod yn ddiystyr os nad ydynt yn deall hynny).

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn mabwysiadu dull safonol o hyfforddi a datblygu Rheolwyr Goruchwylio Digwyddiadau. Er mwyn symud ymlaen i’r rhaglen hyfforddi Rheolwyr Goruchwylio a gyflwynir ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub, rhaid i ymgeisydd basio arholiad ysgrifenedig a osodir gan Weithgor Rheoli Digwyddiadau Cymru Gyfan a dangos cymhwysedd pwynt mynediad ar gyfer goruchwylio ymarfer safonol a sefyllfa weithredol. Ers i archwiliadau statudol Bwrdd Archwiliadau’r Gwasanaeth Tân ddod i ben, mae sawl Gwasanaeth Tân ac Achub yn y DU wedi mabwysiadu’r dull gweithredu hwn sy’n gwbl synhwyrol a phriodol.

Mae’r maes llafur ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig yn seiliedig ar y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ac mae’n cynnwys Rheoli Digwyddiadau, ynghyd â’r wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn y canllawiau ‘Rheoli digwyddiadau; Gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd’. Os bydd yr ymgeisydd yn llwyddiannus yn y sefyllfaoedd ymarferol ac ysgrifenedig, bydd yn mynd ar gwrs hyfforddi sy’n para wythnos. Fel arfer, mae’r cwrs yn cynnwys mewnbwn damcaniaethol ar y diwrnod cyntaf a’r ail, yn bennaf yng nghyswllt y canllawiau a nodir yn ‘Rheoli digwyddiadau; Gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd’, ac yna sesiynau ymarferol yn ystod y tri diwrnod sy’n weddill, gan ddefnyddio cyfuniad o ymarferion iard ac efelychu cyfrifiadurol.

Llwyddom i sefydlu yn y cyfweliadau dilynol nad oedd unrhyw fewnbwn damcaniaethol yn cael ei ddarparu ynghylch pob un o gamau’r Model Gwneud Penderfyniadau ar y cwrs, a sut y dylid mynd ati’n ddilyniannol i ddatblygu cynllun tactegol. Mae cwmpas yr Adolygiad Thematig hwn wedi’i gyfyngu i’r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, fodd bynnag, drwy wneud ymholiadau anffurfiol, llwyddom i sefydlu bod y sefyllfa hon yn cael ei hatgynhyrchu gyda nifer o ddarparwyr hyfforddiant, gan gynnwys Coleg y Gwasanaeth Tân. Mae hyn yn ddealladwy o ystyried nad yw’r wybodaeth wedi’i chynnwys yn y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol sy’n sail i’r meysydd llafur hyfforddiant bellach. Felly, mae’r mater hwn yn fwy perthnasol i raglen y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol nag y mae i’r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

**Argymhelliad 1** – bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnwys disgrifiad manwl o bob cam o Fodel Gwneud Penderfyniadau’r Gwasanaeth Tân ac Achub, sy’n debyg i’r hyn a geir yn Atodiad

Adolygiad Thematig sy’n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i’r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

4 Llawlyfr y Gwasanaeth Tân ac Achub, Cyfrol 2 Gweithrediadau Rheoli Digwyddiadau’r Gwasanaeth Tân, Trydydd Argraffiad 2008, yn y canllawiau gweithredol a’r maes llafur ar gyfer hyfforddiant Rheoli Digwyddiadau. Dylai’r disgrifiad hwn ymestyn i’r ffordd y dylid defnyddio’r model i osod amcanion er mwyn cyflwyno cynllun tactegol ac adolygu effeithiolrwydd y cynllun yn barhaus.

Ôl-nodyn – mae’r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub wedi ymgysylltu â Chadeirydd Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ynghylch y mater hwn. Mae ffrwd waith Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân wedi cael y dasg o ddatblygu deunyddiau hyfforddi ar Reoli Digwyddiadau, a ddylai fynd i’r afael â’r argymhelliad hwn.

## I ba raddau y mae athrawiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn cyd-fynd â’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol

Mae canllawiau gweithredol a threfniadau gweithredu safonol presennol Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn seiliedig ar y mynegai Asesu Risg Cyffredinol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn defnyddio polisi gweithredol a gorchmynion gweithdrefnau’r gwasanaeth a ddatblygwyd ar sail y mynegai Asesu Risg Cyffredinol ond nad ydynt yn gwbl gyson ag ef. Mae’r rhain i bob pwrpas yn cyflawni’r un diben â threfniadau gweithredol safonol. Mae safon y canllawiau gweithredol presennol (cyn y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol) yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn uchel. Mae’r trefniadau gweithredu safonol / polisi gweithredol a rheolau gweithdrefnau’r gwasanaeth yn gryno ac yn hawdd eu darllen. Maent hefyd yn seiliedig ar fesurau rheoli peryglon a risg ac felly maent eisoes yn gyson ag egwyddorion y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol.

Mae’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi buddsoddi amser a gwneud ymdrech sylweddol i fabwysiadu'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol, gan gynnwys cynnal prosesau gweithredu manwl, ond maent i gyd ar wahanol gamau o’r daith. Mae hyn yn gwbl ddealladwy o ystyried bod eu sefyllfaoedd yn wahanol i ddechrau a bod yr adnoddau sydd ar gael ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub yn amrywio. Mae faint o waith sy’n gysylltiedig â phontio i’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol yn sylweddol ac nid yw’n rhywbeth y mae modd ei wneud ochr yn ochr â gwaith o ddydd i ddydd. Gwelsom ddyblygu ymdrechion yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub. Er bod rhywfaint o gydweithio rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub, does dim dwywaith bod cyfle i ddatblygu hyn ymhellach.

Yn ein barn ni, byddai sefydlu dull gweithredu Cymru gyfan ffurfiol ar gyfer pontio i'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol drwy greu tîm rhithiol pwrpasol rhwng y tri gwasanaeth at y diben hwnnw, yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion yn ogystal â darparu canllawiau gweithredol o ansawdd uchel, gan gynnwys trefniadau gweithredol safonol. Byddai modd mireinio’r trefniadau gweithredu safonol hyn yn ôl yr angen i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol, ond ni welwn unrhyw reswm dros ddargyfeirio’n sylweddol oherwydd bydd y mesurau rheoli peryglon a risg cyffredinol ar gyfer unrhyw fath o ddigwyddiad yr un fath ar draws Cymru. Rydym o’r farn y byddai’n fuddiol cynnal tîm Cymru gyfan hefyd ar gyfer y gwaith parhaus o reoli a diweddaru canllawiau gweithredu er mwyn eu safoni a sicrhau cysondeb.
Byddai canllawiau gweithredu safonol a chyson sy’n ymwneud â rheoli peryglon a risg yn cefnogi dull Cymru gyfan o ymdrin â hyfforddiant Rheoli Digwyddiadau, a gallai hefyd fod yn sail i ddull safonol o gasglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle a datblygu Cynlluniau Tactegol Gweithredol. Mae enghreifftiau o bob rhan o Wasanaeth Tân ac Achub y DU y gellid eu defnyddio i roi sail i'r dull hwn, a gallwn ei rannu â’r Gwasanaethau Tân ac Achub os ydynt yn bwriadu derbyn yr argymhelliad.

Adolygiad Thematig sy'n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

**Argymhelliad 2** – sefydlu Tîm Cymru Gyfan pwrpasol ar gyfer Pontio i'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ar draws y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn datblygu trefniadau gweithredu safonol cenedlaethol y gellir eu mireinio i'w defnyddio'n lleol yn ôl yr angen. Dylai'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ystyried prif ffrydio'r Tîm hwn i sicrhau bod canllawiau gweithredu yn cael eu safoni a'u bod yn gyson.

## Y berthynas rhwng canllawiau gweithredol a Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle

Dylid nodi o'r cychwyn cyntaf bod y llwyfannau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ym mhob un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymddangos yn hynod effeithiol, yn ogystal â'r mecanweithiau y mae criwiau'n eu defnyddio i gael gafael ar Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle yn y digwyddiad ei hun. Mae'r Cynlluniau Tactegol Gweithredol cysylltiedig hefyd o safon uchel iawn. Wedi dweud hynny, er bod canllawiau gweithredu presennol y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi'u seilio ar fethodoleg rheoli peryglon a risg, nid oedd llawer o dystiolaeth o unrhyw berthynas uniongyrchol rhwng y mesurau rheoli peryglon a risg cyffredinol a nodir yn y trefniadau gweithredu safonol a'r rheini sydd wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau Tactegol Gweithredol / Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle yn unrhyw un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Byddem yn disgwyl gweld datganiadau cyffredinol ar fesurau rheoli peryglon a risg yn cael eu nodi mewn trefniadau gweithredol safonol, a datganiadau ar fesurau rheoli peryglon a risg penodol i'r safle yn cael eu nodi mewn Cynlluniau Tactegol Gweithredol / Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle.

Mae hyn yn arwain at ddiffyg cysondeb ar draws ardaloedd rheoli daearyddol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub unigol, sy'n cael ei waethygu gan bolisïau ar Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle sy'n caniatáu disgresiwn lleol ynghylch pa adeiladau sy'n berthnasol i'r broses o gasglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle. Yn sgil y cyfweliadau dilynol a gynhaliwyd, llwyddom i sefydlu bod y diffyg cysondeb yn arwain at bosibilrwydd bod ffeiliau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ar gyfer nifer sylweddol o adeiladau risg isel lle bo'r mesurau rheoli peryglon a risg yn ddigon cyffredinol i ddod o dan y trefniadau gweithredu safonol perthnasol. Mae hyn yn creu baich gwaith diangen drwy orfod cynnal ymweliadau ymgyfarwyddo/ailymweliadau cysylltiedig â Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ar gyfer safleoedd o'r fath, lle byddai'n fwy effeithiol targedu'r gweithgarwch hwn at safleoedd risg uwch. Mae hefyd yn creu swm bron yn 'annirnadwy' o wybodaeth i'w defnyddio a'i chynnal.

Mae pontio i'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol yn gyfle i adolygu polisïau ar Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ac i bennu meini prawf cyson sy'n seiliedig ar risg ar gyfer safleoedd lle mae angen ffeil o Wybodaeth am y Risgiau Penodol i'r Safle. Yn ymarferol, dylai'r broses o bontio i'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ddarparu cyfres o drefniadau gweithredu safonol sy'n seiliedig ar asesiad risg gweithredol ar gyfer pob math o ddigwyddiad y gellir ei ragweld yn rhesymol. Mae'r wybodaeth gyffredinol am y mesurau rheoli a pheryglon sydd yn y trefniadau gweithredu safonol yn gallu cael ei hategu gan Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle mewn safleoedd risg uwch a'i nodi mewn Cynlluniau Tactegol Gweithredol sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub.

Gallai lleihau cyfanswm y ffeiliau o Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle arwain at fanteision sylweddol o ran trefniadau gwaith mewn gorsafoedd. O'r hyn y llwyddom i'w sefydlu yn y cyfweliadau dilynol, mae angen cynnal ailymweliadau ymgyfarwyddo â'r rhan fwyaf o'r safleoedd risg uchel yn flynyddol, ac mae'r rhain yn cael eu rhannu ar draws y staff mewn gorsafoedd shifft amser cyflawn (ar 4 Gwyliadwraeth, ac eithrio pan fydd trefniant hunan-amserlennu ar waith). Mae hyn yn golygu, fel arfer, y bydd Tîm Gwyliadwraeth yn cynnal ymweliad ymgyfarwyddo â safle risg uchel bob 4 blynedd

i gasglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle. Mewn gorsafoedd sy’n gweithredu system hunan-amserlennu, gall yr amser rhwng ymweliadau ymgyfarwyddo fod yn hirach fyth. Wrth i’r amgylchedd adeiledig ddod yn fwy cymhleth, mae’r gofyniad i ddiffoddwyr tân gynnal yr wybodaeth bresennol am fesurau rheoli peryglon a risg yn mynd yn fwy dwys.

Fel rhan o drefn waith yr orsaf, dylid neilltuo amser i atgyfnerthu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, a fyddai’n golygu bod Tîm Gwyliadwraeth, pan nad ydynt yn cynnal ymweliad ymgyfarwyddo i gasglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle eu hunain, yn gallu cael mynediad at unrhyw ffeiliau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle a Chynlluniau Tactegol Gweithredol wedi’u diweddaru, er mwyn eu hastudio ar y cyd â’r trefniadau gweithredu safonol perthnasol. Mae’r gweithgarwch hwn yn arbennig o briodol ar gyfer y shifft nos.

**Argymhelliad 3** – adolygu a diwygio polisïau ar Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle er mwyn cydnabod yn glir y gellir defnyddio’r wybodaeth gyffredinol am y mesurau rheoli peryglon a risg sydd yn y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ar safleoedd risg isel. Dylai hyn leihau’r angen i gadw ffeiliau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle mewn niferoedd sylweddol. Dylai unrhyw safle y penderfynir bod angen ffeil o Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle ar ei gyfer fod â Chynllun Gweithredu ategol sy’n nodi’r mesurau rheoli risg a pheryglon penodol i’r safle, yn ogystal â’r rheini sydd wedi’u cynnwys yn y canllawiau gweithredu perthnasol. Dylai’r ffeiliau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle a’r Cynlluniau Tactegol Gweithredol gael eu defnyddio fel mater o drefn gan y staff na wnaethant gynnal yr ailymweliad ymgyfarwyddo diweddaraf, i sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r sefyllfa yn cael ei chynnal.

## Gweithdrefnau gorchymyn a rheoli ar gyfer Offer Anadlu a diffodd tân yn dactegol

Un o amcanion y cyfarfodydd dilynol oedd canfod i ba raddau roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi mabwysiadu’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Offer Anadlu. Y maes ffocws cyntaf oedd dynodi arwyddion galw a methodoleg chwilio Timau Offer Anadlu. Yr ail faes ffocws oedd sefydlu i ba raddau yr ymdriniwyd â diffodd tân tactegol ac yn benodol i ba raddau roedd cyfrifo cyfraddau llif tactegol wedi’i gynnwys mewn canllawiau gweithredu a hyfforddiant. Mabwysiadwyd y llwybr holi hwn oherwydd ei fod yn berthnasol i ddigwyddiad Tŵr Grenfell. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw’n glir o adroddiad Cam 1 GTI a oedd y Timau Offer Anadlu yn arwyddion galw dynodedig neu a gawsant eu briffio i gyflawni technegau chwilio penodol (chwilio yn ôl cyfeiriad neu glirio ystafelloedd). Hefyd, nid yw’n glir a ystyriwyd cyfrifo cyfraddau llif tactegol y dŵr sydd ei angen i ddiffodd tân o’r maint a’r math hwnnw, ac a fyddai modd sicrhau cyfraddau llif o’r fath ai peidio.

Roedd Rheolwyr Hyfforddiant y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu dangos rhaglen gynhwysfawr o ddysgu sgiliau a chynnal a chadw Offer Anadlu, yn ogystal â Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol a oedd yn cyd-fynd â’r canllawiau gweithredu a oedd mewn grym ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub a’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ar Offer Anadlu, gan gynnwys dynodi arwyddion galw a methodoleg chwilio’r Tîm Offer Anadlu. Yn sgil y trafodaethau dilynol, roedd yn amlwg bod hwn yn faes cymhwysedd sy’n cael y lefel angenrheidiol o sylw.

Nid oedd Rheolwyr Hyfforddiant yn gallu dangos bod mewnbwn ar gyfraddau llif tactegol yn cael ei ddarparu ar gyrsiau Offer Anadlu nac Ymddygiad Tân Adrannol ond roeddent i gyd yn credu ei fod yn cael ei gynnwys ar gyrsiau hyfforddi Diffoddwyr Tân cychwynnol i recriwtiaid. Nid oedd cyfeiriadau penodol at gyfraddau llif tactegol na chyfrifiadau ar safle’r tân yn unrhyw un o’r canllawiau gweithredol a gyflwynwyd ar gyfer yr adolygiad bwrdd gwaith nac yn y cyfweliadau dilynol. Fodd bynnag, mae’n fater sydd wedi codi yn ystod y broses sicrwydd gweithredol.

Er ein bod yn cydnabod yn llwyr faint o bynciau y mae angen eu cynnwys ar y cyrsiau cychwynnol a’r cyrsiau gloywi ar Offer Anadlu ac Ymddygiad Tân Adrannol, rydym o’r farn y byddai’n fuddiol cynnwys mewnbwn ar ddiffodd tân yn dactegol. Cafwyd achosion yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle mae dewis cyfryngau a thechnegau diffodd tân amhriodol wedi cyfrannu at farwolaethau ac anafiadau ymysg Diffoddwyr Tân, gan gynnwys digwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn. Hefyd, cafwyd achosion lle daliwyd ati i ymdrechu i ddiffodd tân mewn digwyddiadau lle nad oedd unrhyw bosibilrwydd o leddfu’r tân, a achosodd ddifrod sylweddol a diangen i’r amgylchedd. Wrth i’r amgylchedd adeiledig fynd yn fwy cymhleth, mae gwybodaeth sylfaenol am y sbectrwm llawn o dechnegau diffodd tân, gan gynnwys pryd i beidio ag ymdrechu i’w ddiffodd yn uniongyrchol ac yn hytrach amddiffyn mannau agored i ddifrod o’i gwmpas, yn dod yn fwyfwy hanfodol.

**Argymhelliad 4** – dylid cynnwys mewnbwn am gyfraddau llif tactegol ar gyfer ymdrechion diffodd tân a chyfrifiadau ar safle'r tân yn y maes llafur ar gyfer cyrsiau cychwynnol a gloywi ar Offer Anadlu ac Ymddygiad Tân Adrannol. Dylai hyn gael ei ategu gan fodiwl hyfforddiant ar-lein er mwyn cynnal sgiliau fel rhan o drefn waith yr orsaf.

## Effeithlonrwydd proses Sicrwydd Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru

Mae gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub strwythurau a phrosesau sefydledig i ddarparu Sicrwydd Gweithredol yn erbyn gweithgareddau arferol a gweithredol. Yn ystod y cyfarfodydd dilynol, gofynnwyd y cwestiwn ‘beth felly’ gan ganolbwyntio’n benodol ar wneud penderfyniadau gweithredol/defnyddio’r Model Gwneud Penderfyniadau, gweithdrefnau rheoli a gorchymyn Offer Anadlu a diffodd tân yn dactegol.

Roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu dangos enghreifftiau lle nodwyd materion naill ai yn ystod gweithgareddau rheolaidd, hyfforddiant, ymarfer corff neu mewn digwyddiad, a rhoddwyd sylw iddynt drwy’r prosesau Sicrwydd Gweithredol. Nid oedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu dangos enghreifftiau a oedd yn ymwneud yn benodol â defnyddio’r Model Gwneud Penderfyniadau ac roeddent yn cydnabod nad oedd materion sy’n codi’n aml, fel cyfansoddiadau cynyddol (negeseuon ategol i Make Pumps 3, wedi’u dilyn yn fuan gan Make Pumps 4 ac ati, sy’n dangos diffyg amcanion wedi’u diffinio’n glir a chynllun tactegol), wedi’u nodi fel tystiolaeth o fethu glynu wrth y Model Gwneud Penderfyniadau. Fodd bynnag, roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu cynnig tystiolaeth eu bod wedi nodi a datrys achosion o fethu glynu wrth weithdrefnau rheoli a gorchymyn ar gyfer Offer Anadlu ac achosion o ddewis cyfryngau diffodd tân amhriodol.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym o’r farn bod y prosesau Sicrwydd Gweithredol a ddefnyddir yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae’r meini prawf Sicrwydd Gweithredol a ddefnyddir yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi’u seilio ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Petai’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn bwriadu derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, y broses Sicrwydd Gweithredol fyddai’r mecanwaith y dylid ei defnyddio i bennu i ba raddau y gweithredir arnynt. Byddai hyn yn ei golygu y byddai’n rhaid diwygio’r meini prawf Sicrwydd Gweithredol er mwyn casglu tystiolaeth benodol mewn perthynas â’r argymhellion.

**Argymhelliad 5** - Petai’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn bwriadu derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, byddai angen diwygio’r broses Sicrwydd Gweithredol a ddefnyddir yn y 3 Gwasanaeth

Adolygiad Thematig sy’n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i’r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

Tân ac Achub i gasglu tystiolaeth benodol mewn perthynas â’r argymhellion er mwyn dangos eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn digwyddiadau. Fel arall, gallai’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub ddefnyddio proses Sicrwydd Thematig i dargedu’r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

## Canfyddiadau – i ba raddau mae argymhellion yr Adolygiad Thematig blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith

Cyhoeddwyd yr Adolygiad Thematig diwethaf ‘Dysgu gwersi i osgoi digwyddiadau diogelwch difrifol – i ba raddau mae Awdurdodau Tân ac Achub yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd a diffoddwyr tân’ yn 2017. Roedd yr Adolygiad Thematig yn gwneud 8 argymhelliad, ac ystyrir y cynnydd isod.

*A1 - Cyn gynted ag y bo’r dadansoddiad cychwynnol o’r bylchau wedi’i gynnal, ar ôl derbyn gwersi i’w dysgu o ffynhonnell allanol, dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod y broses yn cael ei chofnodi’n gywir. Mae cofnodi’r broses o wneud penderfyniad ynghylch mabwysiadu, neu beidio â mabwysiadu, argymhellion cenedlaethol yn hanfodol.*

Cynhaliodd pob un o’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub ddadansoddiad o’r bylchau rhagataliol yn seiliedig ar wybodaeth am dân Tŵr Grenfell wrth iddi ddod i’r amlwg, a’r hyn a nodwyd yn y cyfryngau gan swyddogion Brigâd Dân Llundain wrth roi tystiolaeth ar gyfer y GTI. O ganlyniad, roedd cynnydd da eisoes wedi’i wneud yn erbyn nifer o’r argymhellion yn adroddiad Cam 1 GTI pan gafodd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2019.
Mae’r 3 Awdurdod Tân ac Achub wedi defnyddio eu systemau mewnol a’u trefniadau llywodraethu i gofnodi a monitro’r camau a gymerwyd o ganlyniad i’w dadansoddiad o’r bylchau. Adroddir yn rheolaidd ar y camau gweithredu hyn i Brif Swyddogion.
O blith yr argymhellion o adroddiad GTI y dewiswyd eu hystyried yn ystod yr Adolygiad Thematig hwn, dim ond un (Argymhelliad 3.20 GTI) sydd heb ei fabwysiadu gan y Gwasanaethau Tân ac Achub oherwydd nid yw’r dechnoleg sydd ei hangen i fynd i’r afael â’r argymhelliad ar gael ar hyn o bryd.

*A2 - Dylai Awdurdodau sicrhau bod gwersi ynghylch risg yn cael eu rhaeadru drwy’r sefydliad yn amserol, gan ganolbwyntio ar y staff hynny fyddai’n elwa fwyaf o’r dysgu o safbwynt lleihau risg.*

Roedd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu darparu tystiolaeth ynghylch sut roedd materion critigol o ran risg, yn enwedig risgiau tân allanol yn ymledu drwy Gladin o Ddeunydd Cyfansawdd Alwminiwm, yn cael eu rhaeadru i’r staff perthnasol.

Yn dilyn y mewnbwn damcaniaethol cychwynnol a ddarparwyd ar draws ei ardal gwasanaeth, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru flaenoriaethu’r hyfforddiant ymarferol a hwyluswyd gan Wasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr ar gyfer staff mewn gorsafoedd yn ardaloedd Caerdydd a Chasnewydd.

Fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod ei hyfforddiant yn canolbwyntio ar griwiau o ardal Abertawe, lle mae’r rhan fwyaf o’i risgiau o ran adeiladau uchel iawn. Yna, cafodd yr hyfforddiant ei raeadru i griwiau eraill y pennir ymlaen llaw mai nhw sy’n gyfrifol am fod yn bresennol mewn digwyddiadau mewn adeiladau uchel. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn ymchwilio i’r posibilrwydd o ddatblygu eu hyfforddiant byw ar ddiffodd tân mewn adeiladau uchel iawn gyda Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr, lle byddai staff yn yr ardaloedd risg uchaf yn cael blaenoriaeth.

Adolygiad Thematig sy'n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

Fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru adolygu'r Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ar gyfer adeiladau uchel iawn er mwyn ystyried y posibilrwydd bod tân yn ymledu'n allanol, a oedd yn rhoi cyfle i staff sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hynny ymgyfarwyddo â'r risg. Roedd diwrnodau Datblygu Swyddogion Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd yn ystyried argymhellion adroddiad Cam 1 GTI ac yn canolbwyntio ar dân yn ymledu'n allanol.

O ganlyniad i gyfyngiadau Covid, nid oeddem yn gallu ymweld â gorsafoedd a siarad â chriwiau gweithredol yn uniongyrchol i weld i ba raddau roedd y dysgu hwn wedi cael ei ddirnad.

*A3 - Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfryngau a ddefnyddir i gyfathrebu ynghylch gwersi i'w dysgu ymhlith grwpiau amrywiol o staff yn briodol i'w hanghenion, yn nodi'n glir y rhesymau dros ddod â nhw i'w sylw ac yn cael eu cyfleu mewn fformat ac mewn dull fydd yn golygu y bydd y gynulleidfa yn eu cofio. Dylid ystyried cynnwys dulliau cylch cyfan hefyd er mwyn hysbysu'r rheiny sy'n codi materion pan fo newidiadau sylweddol i'w gwneud.*

Mae'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi defnyddio cydbwysedd o hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Cam 1 GTI. Maent wedi defnyddio technoleg gwybodaeth i ddarparu mynediad rhwydd at wybodaeth berthnasol, gan ymdrin â meysydd fel canllawiau gweithredol, hysbysiadau a Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle wedi'i diweddaru. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu hyfforddiant damcaniaethol cychwynnol i dros 900 o weithwyr; Adran Diogelwch Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn darparu mewnbwn arbenigol; a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyhoeddi hysbysiadau gweithdrefnol sy'n galluogi ei staff i gael gafael ar wybodaeth berthnasol am risg ar unwaith.

Ategwyd hyn gan hyfforddiant ymarferol ar adeiladau uchel iawn ac ymarferion ar gyfer staff rheoli a gweithredol sy'n defnyddio'r amgylchedd adeiledig a chyfleusterau hyfforddi, ynghyd â hyfforddiant arbenigol yng Ngwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Fel y nodwyd eisoes, o ganlyniad i gyfyngiadau Covid, nid oeddem yn gallu ymweld â gorsafoedd na siarad â chriwiau gweithredol yn uniongyrchol i weld i ba raddau roedd y dysgu hwn wedi cael ei ddirnad.

Nid yw elfen 360˚ yr argymhelliad hwn yn berthnasol yn yr achos hwn oherwydd bod dysgu'r GTI yn dod o ffynhonnell allanol.

*A4 - Dylai Awdurdodau edrych ar gyflwyno systemau sicrwydd ansawdd sy'n profi'n rheolaidd pa mor dda y mae gwersi ynghylch risg yn cael eu derbyn a'u cadw.*

O'r hyn y llwyddom i'w sefydlu, mae'r meini prawf Sicrwydd Gweithredol a ddefnyddir yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub wedi'u seilio ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Felly, byddai angen diwygio'r meini prawf Sicrwydd Gweithredol i gasglu tystiolaeth yn erbyn agweddau penodol ar ddysgu sy'n gritigol o ran risg. Fel arall, gallai'r Gwasanaethau Tân ac Achub gynnal proses Sicrwydd Thematig i sefydlu i ba raddau y mae dysgu sy'n gritigol o ran risg wedi cael ei ymgorffori (Argymhelliad 5 yn yr adroddiad hwn).

*A5 - Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfoeth o wybodaeth a ddaw drwy'r prosesau Ôl-friffio Poeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu ble bo hynny'n briodol.*

Dylai'r Systemau Dysgu Gweithredol ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub fod â'r cyfleuster i gofnodi canlyniadau Ôl-friffio Poeth fel mater o drefn. Ni fu modd sefydlu'n bendant drwy'r Adolygiad hwn a

Adolygiad Thematig sy’n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i’r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

yw hyn yn arferol ai peidio. Felly, mae angen gwneud ymchwil bellach er mwyn gallu cyflwyno barn wybodus.

*A6 - Dylai Awdurdodau adolygu eu prosesau Asesiadau Risg Dadansoddol i sicrhau eu bod yn addas i’r diben a’u bod yn bwydo i’r prosesau ehangach o gofnodi dysgu sefydliadol.*

Ni fu modd sefydlu’n bendant drwy’r Adolygiad hwn a yw hyn yn arferol ai peidio. Felly, mae angen gwneud ymchwil bellach er mwyn gallu cyflwyno barn wybodus.

*A7 - Dylai Awdurdodau sicrhau cymaint ag sy’n bosibl o gyfleoedd i ddysgu mewn amgylcheddau critigol o ran risg drwy hyfforddiant realistig, yn enwedig o gofio’r gostyngiad mewn digwyddiadau ‘tân’ dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hi hefyd yn bwysig bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal gan bersonél sy’n gweithio gyda’i gilydd yn eu criwiau arferol.*

Mae’n ymddangos bod y broses o hyfforddi mewn criwiau wedi hen ennill ei phlwyf. Roedd pob un o’r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhoi tystiolaeth o griwiau yn hyfforddi ac yn ymarfer gyda’i gilydd ar gyfer sefyllfaoedd mewn adeiladau uchel iawn.

Mae’r hyfforddiant wedi’i flaenoriaethu ar sail risg ac yn canolbwyntio ar y prif gytrefi trefol, lle mae’r rhan fwyaf o’r adeiladau uchel iawn. Cynhelir yr hyfforddiant hwn yn bennaf gan griwiau a staff sy’n gweithio gyda’i gilydd o ddydd i ddydd.

*A8 – Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle ceir arfer da lle mae’r systemau sy’n cael eu datblygu yn llawn addewid i’r dyfodol. Argymhellir bod y systemau a’r prosesau hyn, yn enwedig y polisïau hynny ar fonitro a sicrwydd gweithredol, yn cael eu rhannu drwy’r Pwyllgor Materion Cenedlaethol er mwyn mabwysiadu dulliau cyffredin ac osgoi ail-wneud gwaith.*

Mae’n ymddangos bod ffactorau allanol ac effaith pandemig Covid wedi effeithio ar ymgysylltu drwy’r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, felly mae cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn gyfyngedig. Canfu’r Adolygiad Thematig hwn achosion o ddyblygu ymdrechion yng nghyswllt gweithredu’r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol (Argymhelliad 2 yn yr adroddiad hwn). Beth bynnag fo’r cyfrwng a ddefnyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Cymru i gydlynu a darparu cydweithrediad, boed hynny’n golygu'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol neu ryw fecanwaith arall, mae angen y cymorth arweinyddiaeth strategol angenrheidiol arno i lwyddo.

## Cydnabyddiaeth

Diolch o galon i Brif Swyddogion y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub – y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richard Prendergast o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, y Rheolwr Ardal Peter Greenslade o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a’r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Kevin Roberts o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – am eu cefnogaeth i’r Adolygiad hwn. Diolch o galon hefyd i’r Swyddogion Arweiniol a enwebwyd i gwrdd â ni ar yr ymweliadau dilynol. Roedd lefel eu hymgysylltu, eu didwylledd a’u gonestrwydd yn rhagorol ac mae’r holl Swyddogion cysylltiedig yn glod i Wasanaeth Tân ac Achub Cymru.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1** – bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnwys disgrifiad manwl o bob cam o Fodel Gwneud Penderfyniadau’r Gwasanaeth Tân ac Achub, sy’n debyg i’r hyn a geir yn Atodiad

Adolygiad Thematig sy'n ystyried i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael a'r argymhellion yn Ymchwiliad Tŵr Grenfell

4 Llawlyfr y Gwasanaeth Tân ac Achub, Cyfrol 2 Gweithrediadau Rheoli Digwyddiadau'r Gwasanaeth Tân, Trydydd Argraffiad 2008, yn y canllawiau gweithredol a'r maes llafur ar gyfer hyfforddiant Rheoli Digwyddiadau. Dylai'r disgrifiad hwn ymestyn i'r ffordd y dylid defnyddio'r model i osod amcanion er mwyn cyflwyno cynllun tactegol ac adolygu effeithiolrwydd y cynllun yn barhaus.

Ôl-nodyn – mae'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub wedi ymgysylltu â Chadeirydd Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ynghylch y mater hwn. Mae ffrwd waith Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân wedi cael y dasg o ddatblygu deunyddiau hyfforddi ar Reoli Digwyddiadau, a ddylai fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 2** – sefydlu Tîm Cymru Gyfan pwrpasol ar gyfer Pontio i'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ar draws y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn datblygu trefniadau gweithredu safonol cenedlaethol y gellir eu mireinio i'w defnyddio'n lleol yn ôl yr angen. Dylai'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ystyried prif ffrydio'r Tîm hwn i sicrhau bod canllawiau gweithredu yn cael eu safoni a'u bod yn gyson.

**Argymhelliad 3** – adolygu a diwygio polisïau ar Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle er mwyn cydnabod yn glir y gellir defnyddio'r wybodaeth gyffredinol am y mesurau rheoli peryglon a risg sydd yn y Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol ar safleoedd risg isel. Dylai hyn leihau'r angen i gadw ffeiliau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle mewn niferoedd sylweddol. Dylai unrhyw safle y penderfynir bod angen ffeil o Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ar ei gyfer fod â Chynllun Gweithredu ategol sy'n nodi'r mesurau rheoli peryglon a risg sy'n benodol i'r safle, yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau gweithredu perthnasol. Dylai'r ffeiliau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle a'r Cynlluniau Tactegol Gweithredol gael eu defnyddio fel mater o drefn gan y staff na wnaethant gynnal yr ailymweliad ymgyfarwyddo diweddaraf, i sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r sefyllfa yn cael ei chynnal.

**Argymhelliad 4** – dylid cynnwys mewnbwn am gyfraddau llif tactegol ar gyfer ymdrechion diffodd tân a chyfrifiadau ar safle'r tân yn y maes llafur ar gyfer cyrsiau cychwynnol a gloywi ar Offer Anadlu ac Ymddygiad Tân Adrannol. Dylai hyn gael ei ategu gan fodiwl hyfforddiant ar-lein er mwyn cynnal sgiliau fel rhan o drefn waith yr orsaf.

**Argymhelliad 5** - Petai'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn bwriadu derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, byddai angen diwygio'r broses Sicrwydd Gweithredol a ddefnyddir yn y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub i gasglu tystiolaeth benodol mewn perthynas â'r argymhellion er mwyn dangos eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn digwyddiadau. Fel arall, gallai'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub ddefnyddio proses Sicrwydd Thematig i dargedu'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peter Greenslade
Area Manager
Mid & West Wales Fire and Rescue Service
Fire and Rescue Service Headquarters
Lime Grove Avenue,
Carmarthen
SA31 1SP

Via email p.greenslade@mawwfire.gov.uk

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref:

Date: 31 January 2020

Dear Peter,

**Grenfell Tower Inquiry Phase 1 report recommendations**

I was given the following action at the CFOs and Chairs meeting with the Deputy Minister on 13 November 2019;

**ACTION: As part of wider assurance arrangements, Dan Stephens to contact CFOs to establish a mechanism for reporting action on the operational recommendations in the Grenfell Inquiry report**

I subsequently wrote to the CFOs of the 3 Welsh FRS on 30 November 2019 requesting their initial responses to the Grenfell Tower Inquiry (GTI) Phase 1 report recommendations and advising that I was minded to use the responses to form the basis of a Thematic Review in order to give the necessary assurances to the Minister.

I have now received all 3 responses, for which I am grateful. At the same time I have also considered a report by the previous CFRA which looked at the extent to which the recommendations of previous Thematic Reviews had been actioned.

This report identified that not enough time had passed to make a judgement on the effectiveness in this respect of the last Thematic Review (Learning lessons to avoid safety critical incidents – how well do Fire and Rescue Authorities in Wales learn lessons from incidents to improve public and firefighter safety?) undertaken in 2017.

I am of the view that the Grenfell Tower incident meets the ‘safety critical’ criteria contemplated in the last Thematic Review. I am also of the view that sufficient time has

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn/Tel: 07971 486112
E-bost/Email:
dan.stephens003@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Swyddfa'r Merthyr Tudful •
Merthyr Tydfil Office
CF48 1UZ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

elapsed since the last Thematic Review for the FRS to have acted upon the recommendations.

It is my intention therefore to use the outcomes of this Thematic Review to also form a judgement on the extent to which the recommendations arising from the last Thematic Review have been acted upon.


Accompanying this letter is a table containing the GTI recommendations on which this review will focus. A short rationale is provided explaining why each recommendation has been selected along with the means by which the extent to which the recommendation has been actioned will be judged (under the column entitled ‘Evidence’). The selected recommendations are predominantly operational in nature.

I will conduct the review in two stages. In the first instance I will undertake a desktop review of FRS doctrine and policy as set out within the evidence column. Thereafter I propose to follow up where necessary through discussions with relevant FRS personnel and undertaking visits to the FRS.

I anticipate concluding the desktop review by the end of April with any follow up discussions or visits taking in place in May through to July. In order to meet this timeline I would be grateful if you could ensure I receive the requested documentation via email by 28 February. Can you also copy in Steve Bryant (Steve.Bryant001@gov.wales) to your response please?

If it assists I would be happy to arrange a telephone call to discuss the review in more detail and to confirm the doctrine I require acknowledging that M&WWFRS may use different terminology to that which I have used in the attached table.

Yours sincerely,



**Dan Stephens** **QFSM**
Chief Fire & Rescue Adviser / Tân ac Achub Ymgynghorydd Prif

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Kevin Roberts
Assistant Chief Fire Officer
North Wales Fire & Rescue Service
Ffordd Salesbury,
St Asaph Business Park,
St Asaph,
Denbighshire,
LL17 0JJ

Via email kevin.roberts@nwales-fireservice.org.uk

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref:

Date: 31 January 2020

Dear Kevin,

**Grenfell Tower Inquiry Phase 1 report recommendations**

I was given the following action at the CFOs and Chairs meeting with the Deputy Minister on 13 November 2019;

**ACTION: As part of wider assurance arrangements, Dan Stephens to contact CFOs to establish a mechanism for reporting action on the operational recommendations in the Grenfell Inquiry report**

I subsequently wrote to the CFOs of the 3 Welsh FRS on 30 November 2019 requesting their responses to the Grenfell Tower Inquiry (GTI) Phase 1 report recommendations and advising that I was minded to use the responses to form the basis of a Thematic Review in order to give the necessary assurances to the Minister.

I have now received all 3 responses, for which I am grateful. At the same time I have also considered a report by the previous CFRA which looked at the extent to which the recommendations of previous Thematic Reviews had been actioned.

This report identified that not enough time had passed to make a judgement on the effectiveness in this respect of the last Thematic Review (Learning lessons to avoid safety critical incidents – how well do Fire and Rescue Authorities in Wales learn lessons from incidents to improve public and firefighter safety?) undertaken in 2017.

I am of the view that the Grenfell Tower incident meets the 'safety critical' criteria contemplated in the last Thematic Review. I am also of the view that sufficient time has

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn/Tel: 07971 486112
E-bost/Email:
dan.stephens003@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Swyddfa'r Merthyr Tudful •
Merthyr Tydfil Office
CF48 1UZ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

elapsed since the last Thematic Review for the FRS to have acted upon the recommendations.

It is my intention therefore to use the outcomes of this Thematic Review to also form a judgement on the extent to which the recommendations arising from the last Thematic Review have been acted upon.

Accompanying this letter is a table containing the GTI recommendations on which this review will focus. A short rationale is provided explaining why each recommendation has been selected along with the means by which the extent to which the recommendation has been actioned will be judged (under the column entitled ‘Evidence’). The selected recommendations are predominantly operational.

I will conduct the review in two stages. In the first instance I will undertake a desktop review of FRS doctrine and policy as set out within the evidence column. Thereafter I propose to follow up where necessary through discussions with relevant FRS personnel and undertaking visits to the FRS.

I anticipate concluding the desktop review by the end of April with any follow up discussions or visits taking in place in May through to July. In order to meet this timeline I would be grateful if you could ensure I receive the requested documentation via email by 28 February. Can you also copy in Steve Bryant (Steve.Bryant001@gov.wales) to your response please?

If it assists I would be happy to arrange a telephone call to discuss the review in more detail and to confirm the doctrine I require acknowledging that NWFRS may use different terminology to that which I have used in the attached table.

Yours sincerely,

**Dan Stephens** QFSM
Chief Fire & Rescue Adviser / Tân ac Achub Ymgynghorydd Prif

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Richard Prendergast
Assistant Chief Fire Officer
South Wales Fire & Rescue Service
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX
Via email r-prendergast@southwales-fire.gov.uk

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref:

Date: 31 January 2020

Dear Richard,

**Grenfell Tower Inquiry Phase 1 report recommendations**

I was given the following action at the CFOs and Chairs meeting with the Deputy Minister on 13 November 2019;

**ACTION: As part of wider assurance arrangements, Dan Stephens to contact CFOs to establish a mechanism for reporting action on the operational recommendations in the Grenfell Inquiry report**

I subsequently wrote to the CFOs of the 3 Welsh FRS on 30 November 2019 requesting their responses to the Grenfell Tower Inquiry (GTI) Phase 1 report recommendations and advising that I was minded to use the responses to form the basis of a Thematic Review in order to give the necessary assurances to the Minister.

I have now received all 3 responses, for which I am grateful. At the same time I have also considered a report by the previous CFRA which looked at the extent to which the recommendations of previous Thematic Reviews had been actioned.

This report identified that not enough time had passed to make a judgement on the effectiveness in this respect of the last Thematic Review (Learning lessons to avoid safety critical incidents – how well do Fire and Rescue Authorities in Wales learn lessons from incidents to improve public and firefighter safety?) undertaken in 2017.

I am of the view that the Grenfell Tower incident meets the 'safety critical' criteria contemplated in the last Thematic Review. I am also of the view that sufficient time has

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn/Tel: 07971 486112
E-bost/Email:
dan.stephens003@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Swyddfa'r Merthyr Tudful •
Merthyr Tydfil Office
CF48 1UZ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

elapsed since the last Thematic Review for the FRS to have acted upon the recommendations.

It is my intention therefore to use the outcomes of this Thematic Review to also form a judgement on the extent to which the recommendations arising from the last Thematic Review have been acted upon.

Accompanying this letter is a table containing the GTI recommendations on which this review will focus. A short rationale is provided explaining why each recommendation has been selected along with the means by which the extent to which the recommendation has been actioned will be judged (under the column entitled ‘Evidence’). The selected recommendations are predominantly operational.

I will conduct the review in two stages. In the first instance I will undertake a desktop review of FRS doctrine and policy as set out within the evidence column. Thereafter I propose to follow up where necessary through discussions with relevant FRS personnel and undertaking visits to the FRS.

I anticipate concluding the desktop review by the end of April with any follow up discussions or visits taking in place in May through to July. In order to meet this timeline I would be grateful if you could ensure I receive the requested documentation via email by 28 February. Can you also copy in Steve Bryant (Steve.Bryant001@gov.wales) to your response please?

If it assists I would be happy to arrange a telephone call to discuss the review in more detail and to confirm the doctrine I require acknowledging that SWFRS may use different terminology to that which I have used in the attached table.

Yours sincerely,

**Dan Stephens** QFSM
Chief Fire & Rescue Adviser / Tân ac Achub Ymgynghorydd Prif

# Ymchwiliad Cyhoeddus Tŵr Grenfell

## Argymhellion Adroddiad Cam 1 a ddewiswyd ar gyfer Asesiad yr Adolygiad Thematig

## Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Deunyddiau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Preswyl Uchel Iawn** | | | | | **Yn Llawn** | **Yn Rhannol** | **Amh** |
| 2 | 33.10b | [Dylai] gwasanaethau tân ac achub sicrhau bod eu staff ar bob lefel yn deall y risg y bydd tân yn ymledu drwy furiau allanol adeiladau uchel iawn, ac yn gwybod sut i adnabod hynny pan fydd yn digwydd. | I sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol o'r risgiau, rhoddwyd cyflwyniad ar adeiladau preswyl uchel iawn i bob gorsaf a swyddog yn ardal Abertawe, lle mae'r rhan fwyaf o'r risgiau, gyda'r bwriad wedyn o roi'r cyflwyniad i ardaloedd eraill lle mae risgiau tebyg.<br><br>Mae cysylltiad wedi cael ei sefydlu rhwng y Grŵp Gorchwyl ar gyfer Adeiladau Preswyl Uchel Iawn – a sefydlwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân – a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, er mwyn i ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl gael eu bwydo'n ôl. Mae'r Drefn Weithredu Safonol yn cyd-fynd â'r Canllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol.<br><br>Roedd yr Adran Diogelwch Tân mewn Busnesau wedi enwi adeiladau y gallai eu gorchudd | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Os yw Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn seilio'u hathrawiaeth (Trefniadau Gweithredu Safonol) ar Ganllawiau Gweithredu Cenedlaethol, dylai'r perygl hwn – ynghyd â gwybodaeth a thactegau'r mesurau rheoli – gael eu nodi'n benodol mewn Asesiad o'r Risgiau Gweithredol y dylid ei ddefnyddio i ddatblygu'r Drefn Weithredu Safonol.<br>Dylid defnyddio hynny wedyn i lywio canlyniadau dysgu unrhyw hyfforddiant cysylltiedig. | Adolygiad bwrdd gwaith o athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | allanol a / neu eu cladin fod yn achosi risg yr oedd angen rhoi sylw iddi. Ysgrifennwyd at y bobl a oedd yn gyfrifol am yr adeiladau hynny, a rhoddwyd gwybod i’r Uned Rheoli Tân ar y Cyd. Felly, os bydd rhywbeth yn digwydd, bydd y criwiau sy’n ymateb yn ymwybodol o’r risg. | | | Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| | | **Gwybodaeth am ddiffodd tân** | | | | | | | |
| 3 | 33.11a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain adolygu, a diwygio fel y bo’n briodol, Atodiad 1 o PN633 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu’n llawn yr egwyddorion yn Asesiad Risg Cyffredinol 3.2. | Mae gan yr Adran Rheoli Risg Weithredol rôl gydlynu mewn perthynas â chasglu gwybodaeth weithredol. Mae trefn weithredu safonol ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth weithredol. Ategir hyn gan gyfres o ddogfennau, fel canllawiau ar wybodaeth am risgiau penodol i'r safle, a’r system darparu gwybodaeth am risgiau gweithredol. | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith. Sail Resymegol – PN633 yw Trefn Weithredu Safonol Brigâd Dân Llundain ar gyfer Adeiladau Uchel Iawn. Bydd adolygiad o Drefniadau Gweithredu Safonol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, a’u polisïau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, yn dangos i ba raddau y mae Trefniadau Gweithredu Safonol yn sail i brosesau casglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, ac yn integreiddio â’r prosesau hynny. Dylai’r Drefn Weithredu Safonol nodi’r mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer peryglon a risgiau er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol i’r holl staff gweithredol. Dylai’r Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle a’r cynllun gweithredol cysylltiedig adeiladu ar hyn gyda | Adolygiad bwrdd gwaith o athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Adolygiad bwrdd gwaith o bolisi'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Gwybodaeth am | √ | | |
| 4 | 33.11b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain sicrhau bod pob swyddog ar lefel Rheolwr Criw ac uwch wedi cael ei hyfforddi i gyflawni gofynion PN633 sy’n ymwneud ag archwilio adeiladau uchel iawn. | I sicrhau bod modd dod o hyd i'r holl risgiau perthnasol yn gyson drwy roi mesurau priodol ar waith i reoli risg, mae'r holl staff ar lefel Rheolwr Criw ac uwch wedi cael eu hyfforddi i gynnal archwiliadau canfod risgiau mewn adeiladau / safleoedd. Mae hyn yn ofyniad ym mhortffolios datblygu Rheolwyr Criw, Rheolwyr Gorsaf a Rheolwyr Gwylfa.<br><br>Mae pwysigrwydd casglu gwybodaeth weithredol yn cael ei | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | adlewyrchu mewn trefniadau gweithredu safonol perthnasol eraill. Er enghraifft, mae'r drefn weithredu safonol ar gyfer diffodd tân mewn adeiladau uchel iawn yn sôn yn benodol am gasglu gwybodaeth weithredol fel mesur rheoli allweddol. Mae'r manylion ar y gofrestr risg yn seiliedig ar y gwaith yma o gasglu gwybodaeth weithredol. | | gwybodaeth weithredol sy'n benodol i'r safle. Mae Atodiad 1 o PN633 yn rhoi arweiniad ar y math o wybodaeth am beryglon y dylid ei chasglu mewn archwiliad Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle. Mae'r Maes Asesu Allweddol yma'n ceisio gweld i ba raddau y mae hyn wedi'i nodi'n benodol ym mholisi Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, ac os yw wedi'i nodi, i ba raddau y mae'n cael ei ddilyn yn ymarferol.<br>Yn ystod digwyddiad Tŵr Grenfell, nid oedd rhag-gynllun gweithredol wedi'i gynnwys yn yr Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle, ac roedd hynny wedi cyfrannu at y ffaith nad oedd unrhyw amcanion penodol na chynllun tactegol cydlynol ar y noson. | Risgiau Penodol i'r Safle, a'r canllawiau cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| | | **Cynlluniau** | | | | | | | |
| 7 | 33.12 | [Dylai] pob gwasanaeth tân ac achub allu derbyn a storio cynlluniau electronig, a sicrhau eu bod ar gael i reolwyr ystafelloedd rheoli a rheolwyr digwyddiadau. | Mae'r Adran Diogelwch Tân mewn Busnesau yn gallu derbyn a storio cynlluniau'n electronig, a gellir cael gafael arnynt drwy derfynellau data symudol.<br><br>Mae'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd yn gallu derbyn a storio cynlluniau electronig, ac yn gallu cael gafael ar gynlluniau sydd ar gael i griwiau drwy derfynellau data symudol. | Gweithrediadau. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub i weld i ba raddau y mae'r argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae cynlluniau llawr yn elfen hanfodol o Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle, ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae gwaith datblygu’n cael ei wneud i ddiweddaru terfynellau data symudol y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, ac i wella’r broses o rannu gwybodaeth drwy gysylltu’r system alw (Vision) a data am wybodaeth fyw (BOSS). Bydd hyn yn golygu bod gwybodaeth o’r fath ar gael yn y digwyddiad ei hun.<br><br>Mae Uned Rheoli Digwyddiadau newydd ar waith, sy’n caniatáu mynediad at bob system meddalwedd. | | archwiliadau chwilio trylwyr (cyfeirir at hyn yn fanwl isod, o dan y sail resymegol dros gynnwys Argymhellion 23 – 25). | digwyddiad ei hun.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| | | **Lifftiau diffodd tân** | | | | | | | |
| 8 | 33.13a | [Dylai] fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod perchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn yn cynnal archwiliadau rheolaidd o unrhyw lifftiau sydd wedi’u dylunio i gael eu defnyddio gan ddiffoddwyr tân mewn argyfwng, ac yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau’r archwiliadau hynny i’w gwasanaeth tân | Mae hyn yn rhan o broses archwilio Diogelwch Tân mewn Busnesau i sicrhau y cydymffurfir â’r Gorchymyn Diogelwch Tân. Hefyd, gofynnir i berchnogion a rheolwyr adeiladau preswyl uchel iawn gysylltu bob mis â’r Uned Rheoli Tân ar y Cyd i roi gwybod am gyflwr eu lifft(iau).<br><br>Os bydd angen, bydd yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd yn diweddaru’r wybodaeth am risgiau penodol i’r safle ar gyfer yr adeilad. Os nad oes modd defnyddio lifft, bydd cynllun wrth gefn sydd wedi’i drefnu ymlaen llaw yn dod i rym hefyd. | Polisi. | Adolygu systemau’r Gwasanaeth Tân ac Achub i weld i ba raddau y mae’r argymhellion hyn wedi cael sylw, gan fod Erthygl 38 o’r Gorchymyn Diogelwch Tân eisoes yn mynnu hyn.<br><br>Sail Resymegol – gweld i ba raddau y gall Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru rannu’r wybodaeth hon â chriwiau sy’n ymateb er mwyn llywio cynlluniau wrth gefn (mynd ymhellach na dim ond nodyn ar y system alw i hysbysu criwiau wrth iddynt ymateb, a mynd ati i addasu unrhyw gynllun tactegol sydd wedi’i gynnwys yn yr | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub yn nodi’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y digwyddiad ei hun, gan gynnwys sut mae newidiadau dros dro mewn proffiliau peryglon a risgiau yn cael | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ac achub lleol bob mis. | | | Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle ar gyfer yr adeilad). | eu cyfleu i staff Gweithredol. Adolygiad bwrdd gwaith o arferion gwaith yr Orsaf. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 9 | 33.13b | [Dylai] fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod perchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn yn cynnal profion rheolaidd ar y peirianwaith sy’n galluogi diffoddwyr tân i reoli’r lifftiau, ac yn rhoi gwybod i’w gwasanaeth tân ac achub lleol yn fisol ei fod wedi gwneud hynny. | Wedi’i gynnwys uchod. | | | | √ | | |
| | | **Rheoli – cyfathrebu yn ystod digwyddiadau** | | | | | | | |
| 10 | 33.14a | Dylai Brigâd Dân Llundain adolygu ei pholisïau ar gyfathrebu rhwng yr ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad. | Mae’r Model Gwneud Penderfyniadau yn rhan annatod o bob agwedd ar reoli digwyddiadau, gan gynnwys cyfathrebu. Bob dwy flynedd, cynhelir asesiad i brofi hyn ar gyfer rheolwyr digwyddiadau ar bob lefel.<br><br>Y drefn a dderbynnir yw bod proses gyfathrebu’n cael ei sefydlu rhwng yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd a’r swyddogaeth Cymorth Rheoli. Mae opsiynau ychwanegol ar gael, fel grwpiau sgwrsio pwrpasol a chyfathrebu o ben i | Gweithrediadau. | Adolygu systemau Technoleg Gwybodaeth ac athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i gael gwybod i ba raddau y mae’r argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn hyfforddi Rheolwyr ar ddefnyddio egwyddorion y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol, mewn perthynas â | Adolygiad bwrdd gwaith o’r athrawiaeth sy’n ymwneud â Rheoli Digwyddiadau a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Adolygiad bwrdd gwaith o brotocolau cyfathrebu’r Uned Rheoli Tân a modiwlau | / | / | / |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ben. Mae defnyddio Ymgynghorwyr Tactegol Airwave yn opsiwn hefyd. Gall swyddogion fynd i’r Ystafell Reoli yn yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd i wella’r opsiynau cyfathrebu yn ystod digwyddiad. | | Chyfathrebu a Rheoli yn benodol.<br>Cael gwybod i ba raddau y gall Rheolwyr a’r Uned Rheoli Tân gyfathrebu’n effeithiol â’i gilydd. | hyfforddiant cysylltiedig.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 11 | 33.14b | Mae’r holl swyddogion y gellid disgwyl iddynt weithredu fel rheolwyr digwyddiadau (hy, pawb sydd ar lefel uwch na Rheolwr Criw) yn cael hyfforddiant ar gyfer y gofynion penodol wrth gyfathrebu â’r ystafell reoli; | Mae hyfforddiant penodol ar adeiladau uchel iawn wedi cael ei ddarparu i ategu’r hyfforddiant presennol, gyda fformat safonol priodol ar gyfer negeseuon yn ofyniad allweddol.<br><br>Mae Rheolwyr Gorsaf a Rheolwyr Grŵp yn cael hyfforddiant Ystafell Reoli, sy’n rhoi trosolwg o’r Uned Rheoli Tân ar y Cyd, gan gynnwys sut mae digwyddiadau’n cael eu rheoli o dan y drefn arferol, a sut mae hyn yn datblygu i gynorthwyo digwyddiad mawr.<br><br>Mae gan Reolwyr Tactegol radio Airwave personol, felly gallant fonitro negeseuon yn ôl yr angen. Mae cyfathrebu â’r Uned Rheoli Tân dros ffôn symudol yn opsiwn hefyd. | | | | √ | | |
| 12 | 33.14c | [Dylai] pawb [sy’n gweithio mewn ystafell reoli] sydd ar lefel Rheolwr Gweithrediadau Cynorthwyol ac uwch, gael | Darperir hyfforddiant cynhwysfawr penodol ar gyfer digwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn i staff yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd. Mae elfennau allweddol o’r hyfforddiant yn cynnwys penderfynu ar briodoldeb strategaeth gadael | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyfforddiant ar gyfer y gofynion penodol wrth gyfathrebu â rheolwr y digwyddiad; | adeilad, a chyfleu cyfarwyddyd goroesi tân. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cymhwyster rheoli digwyddiadau ar gyfer Goruchwylwyr Rheoli. | | | | | | |
| 13 | 33.14d | [Dylid] darparu cysylltiad cyfathrebu pwrpasol rhwng yr uwch swyddog yn yr ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad. | Mae mesurau ar waith i sicrhau bod modd cyfathrebu drwy setiau radio Airwave (mae gan bob swyddog ar y rota Swyddogion Tactegol ei radio ei hun), drwy’r swyddogaeth cymorth rheoli neu’r Uned Rheoli Digwyddiadau. Os tybir bod hynny’n briodol, gellir sefydlu Ystafell Reoli yn yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd, lle gall Swyddog fod yn bresennol a bod yn gyswllt rhwng Rheolwr y Digwyddiad a’r Uwch Reolwr. | | | | √ | | |
| | | **Galwadau brys** | | | | | | | |
| 17 | 33.15d | [Dylid] datblygu systemau electronig i gofnodi gwybodaeth [cyfarwyddyd goroesi tân] yn yr ystafell reoli, a’i harddangos ar yr un pryd yn y canolbwynt diogel (bridgehead) ac mewn unrhyw unedau rheoli; | Mae’r mater hwn yn cael ei ystyried gan y gweithgor adeiladau uchel iawn. Roedd adolygiad o derfynellau data symudol wedi cael ei gynnal, ac mae bwriad i gyflwyno systemau newydd sydd wedi’u diweddaru drwy gydol 2020.<br><br>Fel rhan o’r dull gweithredu newydd yma, bydd system alw Vision yn gallu diweddaru BOSS er mwyn rhoi gwybodaeth fyw, a | Gweithrediadau. | Adolygu systemau’r Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Cael gwybod i ba raddau y gall Uned Rheoli Tân fynd ati’n effeithiol i gyfleu gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân yn uniongyrchol i’r Tîm Rheoli yn y digwyddiad (Model Gwneud Penderfyniadau | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y digwyddiad ei hun. | | √ | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | fyddai ar gael yn yr Uned Rheoli Digwyddiadau.<br><br>Mae rhagor o waith wedi cael ei wneud i wella'r technolegau tân yn ddigidol, gan gynnwys darparu swigod Wi-Fi ar gyfer injans tân, darparu dyfeisiau tabled symudol i Swyddogion, defnyddio camerâu corff i ffrydio fideos byw o bosibl, a defnyddio system tracio GPS i fonitro lleoliad staff. | | Gweithredol – Gwybodaeth am Ddigwyddiad). | Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 18 | 33.15d | Dylid datblygu polisïau ar gyfer rheoli'r newid o "aros lle'r ydych chi" i "adael yr adeilad". | Darperir hyfforddiant i staff rheoli a gweithredol er mwyn cydnabod bod angen newid y dull gweithredu o bosibl. Mae tudalen 'Gwybodaeth Gyffredinol' ar gael i Swyddogion Rheoli er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson yn cael ei fabwysiadu. Mae'r holl staff rheoli wedi cymryd rhan mewn ymarfer pen bwrdd ar gyfer adeiladau uchel iawn, a oedd yn canolbwyntio ar newid y cyngor hwnnw.<br><br>Mae'r drefn weithredu safonol ar gyfer diffodd tân mewn adeiladau uchel iawn yn cynnwys manylion am faterion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar y posibilrwydd o newid y cyngor o aros lle'r ydych chi, i adael yr adeilad. | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae perygl y byddai wedi bod yn rhesymol ei rag-weld mewn digwyddiad mewn adeilad uchel iawn yn torri'r rheolau rhannu adeiladau'n adrannau, ac yn peryglu'r polisi aros lle'r ydych chi. Y mesur rheoli yn yr amgylchiadau hyn yw gwagio'r adeilad yn rhannol neu'n llawn. Cydnabyddir bod angen i wybodaeth a thactegau'r mesur rheoli gael eu datblygu'n llawn drwy Ganllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol, cyn eu gwreiddio yn athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub. Fodd bynnag, y disgwyliad yw y dylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub roi arweiniad dros dro i staff | Adolygiad bwrdd gwaith o'r athrawiaeth mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Adolygiad bwrdd gwaith o brotocolau cyfathrebu'r Uned Rheoli Tân a modiwlau | √ | | |
| 19 | 33.15e | [Dylai] staff yr ystafell reoli gael | Wedi'i gynnwys uchod. | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â delio â newid y cyngor hwnnw, a chyfleu'r newid yn effeithiol i bobl sy'n ffonio. | | | Gweithredol a'r Uned Rheoli Tân. | hyfforddiant cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 20 | 33.16 | [Dylid] cymryd camau i ymchwilio i ddulliau y gall ystafelloedd rheoli cynorthwyol eu defnyddio i gael gafael ar yr wybodaeth sydd ar gael i'r brif ystafell reoli. | Mae Uned Reoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gallu gweld yr wybodaeth sydd ar gael i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd, cyn gynted ag y daw'r wybodaeth honno i law. Mae Lluniad a wnaed gyda Chymorth Cyfrifiadur ar gael er mwyn gweld yr wybodaeth am ddigwyddiad yn y brif ystafell reoli.<br><br>Mae galwadau'n cael eu trosglwyddo drwy ddulliau Trosglwyddo Data Digwyddiadau'n Electronig, sy'n ei gwneud yn bosibl i drosglwyddo'r union wybodaeth rhwng ystafelloedd rheoli heb orfod cofnodi gwybodaeth ddwywaith. | Gweithrediadau. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae trefniadau cyfeillio'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn caniatáu i'r Uned Rheoli Tân gynorthwyol gael gafael ar wybodaeth am risgiau mewn digwyddiad difrifol. | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol i Uned(au) Rheoli Tân cynorthwyol. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |
| 21 | 33.17 | [Dylai] [Gwasanaeth Ambiwlans | Mae angen ymchwilio ymhellach cyn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, gyda'r awgrym y gallai Grŵp | Gweithrediadau. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac archwilio dogfennau'r Cyd-grŵp | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y | | √ | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Llundain] a'r [Heddlu Metropolitanaidd] adolygu eu protocolau a'u polisïau i sicrhau bod eu swyddogion yn gallu adnabod galwadau [cyfarwyddyd goroesi tân] (fel y'u diffinnir gan Frigâd Dân Llundain), a'u trosglwyddo i Frigâd Dân Llundain cyn gynted â phosibl. | Digwyddiadau Niweidiol y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wneud y gwaith hwn.<br>Bydd hefyd angen ystyried trefniadau Rheoli Heddlu Dyfed Powys.<br>Disgwylir y bydd Swyddogion Rheoli Heddlu De Cymru yn cael hyfforddiant ar gyfarwyddyd goroesi tân drwy gydol 2020.<br><br>Rydym yn ceisio cael dyddiad ar gyfer dechrau'r hyfforddiant gyda Chanolfan Reoli Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. | | Gwasanaethau Brys i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Heddlu yn gallu trosglwyddo gwybodaeth am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân i Wasanaethau Tân ac Achub Cymru. | Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Heddlu am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| | | **Rheoli** | | | | | | | |
| 22 | 33.18a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu polisïau a hyfforddiant i sicrhau ei bod yn rheoli trefniadau ac yn defnyddio adnoddau yn well. | Mae'r holl drefniadau gweithredu safonol yn sôn am y Model Gwneud Penderfyniadau a'r Model Penderfyniadau ar y Cyd. Mae hyn yn rhan annatod o hyfforddiant y rheini sy'n ceisio dod yn Rheolwyr Digwyddiadau, o gamau cychwynnol hyfforddiant o'r fath. Ac mae'n dal yn elfen sy'n cael sylw drwy'r lefelau eraill o Reoli | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae dwy elfen i'r Maes Asesu Allweddol yma. Yn gyntaf, cael gwybod i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn hyfforddi Rheolwyr ar | Adolygiad bwrdd gwaith o'r athrawiaeth sy'n ymwneud â Rheoli Digwyddiadau a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Digwyddiadau, o ran asesiadau ailachredu a hyfforddiant. | | egwyddorion y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol a'r Broses Rheoli Penderfyniadau, sy'n rhan annatod o'r Canllawiau Sylfaenol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau. Yn nigwyddiad Tŵr Grenfell, ychydig iawn o dystiolaeth oedd – os o gwbl – o ddilyn egwyddorion y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol, nes i'r Comisiynydd Cynorthwyol Roe fod yn bresennol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â chasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau, peryglon ac adnoddau, blaenoriaethu amcanion, a datblygu cynllun tactegol. Mae argymhelliad 22 yn cyfeirio at hyn.<br>Mae'r ail elfen yn cyfeirio'n ôl at argymhellion 5-7, ac mae'n ymwneud llawn cymaint â thechnegau archwiliadau chwilio Offer Anadlu ag y mae'n ymwneud â chyfathrebu. Mae hefyd yn berthnasol i bob math o ddigwyddiad.<br>Mae dau ddull o chwilio; yn ôl cyfeiriad (dilyn cyfeiriad y llaw chwith neu'r llaw dde) neu glirio ystafelloedd. Wrth ddarllen adroddiad Ymchwiliad Tŵr Grenfell, nid yw'n amlwg bod Brigâd Dân Llundain wedi defnyddio'r naill ddull na'r llall yn gyson. Byddai hynny, ynghyd ag | Adolygiad bwrdd gwaith o brosesau rheoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Offer Anadlu, a'i weithdrefnau tactegol i ddiffodd tân a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 2 3 | 33.18b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu polisïau a hyfforddiant i sicrhau bod criwiau sy'n dychwelyd o ddigwyddiad yn darparu gwell gwybodaeth, a bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi mewn ffordd sy'n golygu ei bod ar gael yn syth i reolwr y digwyddiad (ac wedyn i'r unedau rheoli a'r ystafell reoli). | Mae pwyslais ar roi briff priodol i dimau offer anadlu, a bod y timau wedi deall yr wybodaeth a ddarparwyd. Defnyddir lluniadau a mapiau i roi manylion perthnasol.<br><br>Mae'r materion a drafodir wrth roi briff yn cynnwys natur a chynllun y strwythur, yr ardal(oedd) i'w chwilio, y peryglon a'r risgiau, yr offer i'w ddefnyddio a'r gweithdrefnau chwilio i'w defnyddio.<br><br>Yn yr un modd, rhoddir pwyslais ar adrodd yn ôl, gan ddefnyddio cynlluniau â nodiadau a/neu fapiau o'r strwythur yn ôl yr angen. | | | | √ | | |
| 2 4 | 33.19 | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu system gyfathrebu er mwyn i'r ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad allu cyfathrebu'n uniongyrchol, a gwella'r ffordd y mae rheolwr y digwyddiad a'r canolbwynt diogel yn cyfathrebu â'i gilydd. | Gall yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd sefydlu grŵp sgwrsio penodol ar gyfer Airwave gyda Rheolwr y Digwyddiad os oes angen, yn ogystal â sianeli penodol ar gyfer y digwyddiad. Os caiff Ystafell Reoli ei sefydlu yn yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd, fel arfer byddai'r swyddog sy'n delio â'r sefyllfa yn cysylltu â Rheolwr y Digwyddiad ar ffôn symudol.<br>Byddai'r Swyddog yn yr Ystafell Reoli hefyd yn gallu monitro'r cyfathrebu ar y radio drwy ei radio Airwave ei hun, a'r cyfathrebu â'r Ystafell Reoli. | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | absenoldeb unrhyw broses ar gyfer archwiliadau chwilio, yn ei gwneud bron yn amhosibl i’r Swyddog Cyfrifol fod yn ffyddiog bod llawr wedi cael ei wagio – boed hynny ar sail gwybodaeth weithredol a gasglwyd yn y fan a’r lle, gwybodaeth a gafwyd gan yr Uned Rheoli Tân neu drwy alwadau ar y pryd ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Mae argymhellion 23 – 25 yn cyfeirio at hyn. | | | | |
| 25 | 33.20 | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ymchwilio i'r defnydd o dechnegau cyfathrebu modern i ddarparu llinell gyfathrebu uniongyrchol rhwng yr ystafell reoli a’r canolbwynt diogel, sy’n ei gwneud yn bosibl i drosglwyddo gwybodaeth yn uniongyrchol rhwng yr ystafell reoli a'r canolbwynt diogel. Bydd hefyd yn darparu system integredig o gofnodi gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân a chanlyniadau digwyddiad. | Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth. | | | | | | √ |
| | | **Cyfarpar** | | | | | | | |
| 26 | 33.21a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain weithredu ar frys i gael cyfarpar sy’n galluogi diffoddwyr tân sy’n gwisgo helmedau ac offer anadlu i | Mae cyfathrebiadau radio digidol newydd, diogel iawn ar gyfer offer anadlu wedi cael eu caffael, ac maen nhw ar gael i’w defnyddio yn 2020. Yn sgil hynny, rhagwelir y bydd timau offer anadlu a’r canolbwynt diogel mewn digwyddiadau mewn adeiladau | Gweithrediadau. | Adolygu cyfarpar cymorth rheoli a chyfathrebu’r Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio a’i fod yn effeithiol.<br>Adolygu cofnodion hyfforddiant y Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau bod yr holl staff sy’n gorfod cyflawni dyletswyddau | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer darparu | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gyfathrebu’n effeithiol â’r canolbwynt diogel, gan gynnwys wrth weithredu mewn adeiladau uchel iawn; | uchel iawn yn gallu cyfathrebu â’i gilydd yn well o lawer. | | cymorth rheoli wedi cael hyfforddiant priodol.<br><br>Sail Resymegol – Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer cymorth rheoli a chyfathrebu yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau gwaith diogel mewn digwyddiadau. | gwybodaeth weithredol i Uned(au) Rheoli Tân cynorthwyol. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 27 | 33.21b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain weithredu ar frys i sicrhau bod y system cymorth rheoli yn gweithio’n llawn ym mhob uned reoli, a bod criwiau’n cael hyfforddiant ar ddefnyddio’r system. | Mae cymorth rheoli’n rhan annatod o bolisïau a threfniadau gweithredu safonol, a darperir hyfforddiant perthnasol. Gellir rhoi hyn ar waith pan fydd yr injan dân gyntaf yn cyrraedd digwyddiad.<br><br>Mae Uned Rheoli Digwyddiadau newydd wedi cael ei chaffael sydd â gwell gallu o ran meddalwedd, ac mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu. Mae hyn yn creu gwell ymwybyddiaeth o’r sefyllfa mewn digwyddiadau, ac yn gwella’r broses o gofnodi a defnyddio gwybodaeth, gan gyfrannu at y broses barhaol o ddelio â digwyddiadau’n effeithiol. | Gweithrediadau. | | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a’r Heddlu am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |

## Ymchwiliad Cyhoeddus Tŵr Grenfell

## Argymhellion Adroddiad Cam 1 a ddewiswyd ar gyfer Asesiad yr Adolygiad Thematig

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Deunyddiau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Preswyl Uchel Iawn** | | | | | Do | Na | Amh |
| 2 | 33.10b | [Dylai] gwasanaethau tân ac achub sicrhau bod eu staff ar bob lefel yn deall y risg y bydd tân yn ymledu drwy furiau allanol adeiladau uchel iawn, ac yn gwybod sut i adnabod hynny pan fydd yn digwydd. | Mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud ers cyn cyhoeddi adroddiad cam 1 Ymchwiliad Tŵr Grenfell, gan gynnwys ailedrych ar y deunyddiau dysgu sydd ar gael a fyddai'n help i baratoi ar gyfer digwyddiadau o'r fath ac i ddelio â nhw.<br><br>Mae dadansoddiad strategol o'r bylchau wedi cael ei gynnal ar gyfer tanau mewn adeiladau tal, o fewn y fframwaith ehangach o ddadansoddiadau o'r amgylchedd gweithredol sy'n gysylltiedig â Chanllawiau Gweithredu Cenedlaethol. Mae canllawiau a deunyddiau hyfforddi wedi cael eu datblygu. Dyma rai enghreifftiau: modiwl Learn Pro, diwrnodau datblygu swyddogion dyletswydd hyblyg, a chyhoeddi rhybuddion gweithdrefnol.<br><br>Mae'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer y dadansoddiad o'r bylchau strategol a'r gwaith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd, wedi cael ei rhannu â'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru drwy Fforwm Gweithredu | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Os yw Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn seilio'u hathrawiaeth (Trefniadau Gweithredu Safonol) ar Ganllawiau Gweithredu Cenedlaethol, dylai'r perygl hwn – ynghyd â gwybodaeth a thactegau'r mesurau rheoli – gael eu nodi'n benodol mewn Asesiad o'r Risgiau Gweithredol y dylid ei ddefnyddio i ddatblygu'r Drefn Weithredu Safonol. Dylid defnyddio hynny wedyn i lywio canlyniadau dysgu unrhyw hyfforddiant cysylltiedig. | Adolygiad bwrdd gwaith o athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cymru y Canllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol.<br><br>Cafodd gwybodaeth am risgiau penodol i'r safle ei diweddaru ar ôl i adroddiad cam 1 Ymchwiliad Tŵr Grenfell gael ei gyhoeddi, gyda staff yn cael eu hatgoffa o’r angen i ymgyfarwyddo â'r wybodaeth honno.<br>Mae gwybodaeth berthnasol a ddaw i law drwy raglenni dysgu Cyd-raglen Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys yn cael ei hystyried yn y Fforwm Dysgu Gweithredol, a’i chyhoeddi pan ystyrir bod hynny’n briodol. | | | | | | |
| | | **Gwybodaeth am ddiffodd tân** | | | | | | | |
| 3 | 33.11a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain adolygu, a diwygio fel y bo’n briodol, Atodiad 1 o PN633 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu’n llawn yr egwyddorion yn Asesiad Risg Cyffredinol 3.2. | Mae trefn weithredu safonol ar waith, sy’n cael ei hategu gan fodiwl Learn Pro i ddarparu gwybodaeth gyfredol, gan fynd ati i gyd-fynd â’r Canllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol.<br><br>Mae cyfres o adnoddau atgoffa gweithredol wedi cael eu datblygu i adlewyrchu’r mesurau peryglon a rheoli perthnasol. O ran tanau mewn adeiladau tal, y bwriad yw y bydd mwy o wybodaeth gyfredol ar gael ar ôl cwblhau'r broses o uwchraddio’r terfynellau data symudol. | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith. Sail Resymegol – PN633 yw Trefn Weithredu Safonol Brigâd Dân Llundain ar gyfer Adeiladau Uchel Iawn. Bydd adolygiad o Drefniadau Gweithredu Safonol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, a’u polisïau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle, yn dangos i ba raddau y mae Trefniadau Gweithredu Safonol yn sail i brosesau casglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle, ac yn | Adolygiad bwrdd gwaith o athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Adolygiad bwrdd gwaith o bolisi'r Gwasanaeth Tân ac | √ | | |
| 4 | 33.11b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain sicrhau bod pob swyddog ar lefel | Mae pob Swyddog ar lefel Rheolwr Criw ac uwch wedi cael hyfforddiant ar wybodaeth am risgiau penodol i'r safle ers dechrau defnyddio’r System Rheoli | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rheolwr Criw ac uwch wedi cael ei hyfforddi i gyflawni gofynion PN633 sy’n ymwneud ag archwilio adeiladau uchel iawn. | Cofnodion, sy’n cael ei defnyddio fel ffordd electronig o gasglu gwybodaeth am risgiau penodol i’r safle. Rhoddir ystyriaeth i gyflwyno deunyddiau hyfforddi perthnasol ar lwyfan e-ddysgu Learn-Pro.<br><br>Mae’r system yn defnyddio PORIS, sef system darparu gwybodaeth am risgiau gweithredol, sy’n gallu cofnodi gwybodaeth am fesurau diogelwch tân gweithredol a goddefol. | | integreiddio â’r prosesau hynny. Dylai’r Drefn Weithredu Safonol nodi’r mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer peryglon a risgiau er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol i’r holl staff gweithredol. Dylai’r Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle a’r cynllun gweithredol cysylltiedig adeiladu ar hyn gyda gwybodaeth weithredol sy’n benodol i’r safle. Mae Atodiad 1 o PN633 yn rhoi arweiniad ar y math o wybodaeth am beryglon y dylid ei chasglu mewn archwiliad Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle.<br>Mae’r Maes Asesu Allweddol yma’n ceisio gweld i ba raddau y mae hyn wedi’i nodi’n benodol ym mholisi Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, ac os yw wedi’i nodi, i ba raddau y mae’n cael ei ddilyn yn ymarferol.<br>Yn ystod digwyddiad Tŵr Grenfell, nid oedd rhag-gynllun gweithredol wedi’i gynnwys yn yr Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, ac roedd hynny wedi cyfrannu at y ffaith nad oedd unrhyw amcanion penodol | Achub ar gyfer Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, a’r canllawiau cysylltiedig.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | na chynllun tactegol cydlynol ar y noson. | | | | |
| | | **Cynlluniau** | | | | | | | |
| 7 | 33.12 | [Dylai] pob gwasanaeth tân ac achub allu derbyn a storio cynlluniau electronig, a sicrhau eu bod ar gael i reolwyr ystafelloedd rheoli a rheolwyr digwyddiadau. | Mae modd derbyn cynlluniau electronig, eu trosi’n PDF a’u gosod ar derfynellau data symudol. Bydd terfynellau data symudol yn cael eu disodli gan ‘lyfrau gwydn’ drwy gydol 2020.<br><br>Mae gwaith datblygu’n cael ei wneud er mwyn i ffolderi copi caled, sy’n rhoi gwybodaeth am risgiau ar gyfer y 12 adeilad tal a nodwyd yng Ngogledd Cymru, fod ar gael ar injans tân. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dyblygu yn yr Uned Rheoli Tân, a bydd yn cael ei storio fel rhan o becynnau gwybodaeth yr orsaf, os bydd criwiau o orsafoedd cyfagos yn mynd i’r digwyddiad i gynnig cymorth wrth gefn. | Gweithrediadau. | Adolygu systemau’r Gwasanaeth Tân ac Achub i weld i ba raddau y mae’r argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae cynlluniau llawr yn elfen hanfodol o Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle, ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal archwiliadau chwilio trylwyr (cyfeirir at hyn yn fanwl isod, o dan y sail resymegol dros gynnwys Argymhellion 23 – 25). | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y digwyddiad ei hun.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |
| | | **Lifftiau diffodd tân** | | | | | | | |
| 8 | 33.13a | [Dylai] fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod perchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn yn cynnal archwiliadau rheolaidd o unrhyw lifftiau sydd wedi’u | Dim ond un o’r 12 adeilad tal sydd â lifft dynodedig ar gyfer diffodd tân. Mae’r gofynion yn cael eu cyflawni drwy orfodi’r Gorchymyn Diogelwch Tân.<br><br>Mae un Awdurdod Lleol yn ystyried uwchraddio lifftiau mewn blociau eraill o fflatiau i fod yn lifftiau diffodd tân. Mae Swyddogion perthnasol yn cael eu cynnwys yn y gweithgor er mwyn bwrw ymlaen â hyn. | Polisi. | Adolygu systemau’r Gwasanaeth Tân ac Achub i weld i ba raddau y mae’r argymhellion hyn wedi cael sylw, gan fod Erthygl 38 o’r Gorchymyn Diogelwch Tân eisoes yn mynnu hyn.<br><br>Sail Resymegol – gweld i ba raddau y gall Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru rannu’r wybodaeth hon â chriwiau | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub yn nodi’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y digwyddiad ei hun, gan gynnwys sut mae newidiadau dros dro mewn proffiliau peryglon a risgiau yn | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dylunio i gael eu defnyddio gan ddiffoddwyr tân mewn argyfwng, ac yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'w gwasanaeth tân ac achub lleol bob mis. | | | sy'n ymateb er mwyn llywio cynlluniau wrth gefn (mynd ymhellach na dim ond nodyn ar y system alw i hysbysu criwiau wrth iddynt ymateb, a mynd ati i addasu unrhyw gynllun tactegol sydd wedi'i gynnwys yn yr Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ar gyfer yr adeilad). | cael eu cyfleu i staff Gweithredol. Adolygiad bwrdd gwaith o arferion gwaith yr Orsaf. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 9 | 33.13b | [Dylai] fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod perchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn yn cynnal profion rheolaidd ar y peiriannwaith sy'n galluogi diffoddwyr tân i reoli'r lifftiau, ac yn rhoi gwybod i'w gwasanaeth tân ac achub lleol yn fisol ei fod wedi gwneud hynny. | Wedi'i gynnwys uchod. | | | | √ | | |
| | | **Rheoli – cyfathrebu yn ystod digwyddiadau** | | | | | | | |
| 10 | 33.14a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain | Mae adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â chyfathrebu rhwng yr Uned | Gweithrediadau. | Adolygu systemau Technoleg Gwybodaeth ac | Adolygiad bwrdd gwaith o'r | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | adolygu ei pholisïau ar gyfathrebu rhwng yr ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad. | Rheoli Tân a Rheolwr y Digwyddiad er mwyn ystyried argymhellion cam 1. Mae staff gweithredol a'r Uned Rheoli Tân yn cyfrannu at yr ymateb i argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell drwy'r Fforwm Dysgu Gweithredol.<br><br>Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod negeseuon priodol yn cael eu hanfon mewn sefyllfaoedd lle mae'r polisi aros lle'r ydych chi wedi cael ei ddiddymu. Cafodd rhybudd gweithdrefnol ei gyhoeddi i ategu hyn. Mae gan yr Uned Rheoli Tân bresenoldeb ar fwrdd adolygu'r Uned Rheoli Digwyddiadau i sicrhau bod y gofynion yn cael eu cyflawni. | | athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i gael gwybod i ba raddau y mae'r argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn hyfforddi Rheolwyr ar ddefnyddio egwyddorion y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol, mewn perthynas â Chyfathrebu a Rheoli yn benodol.<br>Cael gwybod i ba raddau y gall Rheolwyr a'r Uned Rheoli Tân gyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. | athrawiaeth sy'n ymwneud â Rheoli Digwyddiadau a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Adolygiad bwrdd gwaith o brotocolau cyfathrebu'r Uned Rheoli Tân a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 11 | 33.14b | Mae'r holl swyddogion y gellid disgwyl iddynt weithredu fel rheolwyr digwyddiadau (hy, pawb sydd ar lefel uwch na Rheolwr Criw) yn cael hyfforddiant ar gyfer y gofynion penodol wrth gyfathrebu â'r ystafell reoli; | Mae rhaglenni cychwynnol, parhaus a datblygu ar gael sy'n cynnwys hyfforddiant o'r fath. Mae enghreifftiau o hynny'n cynnwys dilyn a chyflawni cymhwyster lefel 1 – 4 y system rheoli digwyddiadau, hyfforddiant aml-asiantaeth Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, a defnyddio'r gyfres o dechnegau efelychu XVR ar gyfer rheoli digwyddiadau.<br><br>Mae staff a rheolwyr yr Uned Rheoli Tân yn ymgysylltu ac yn darparu cymorth ar gyfer cyfleoedd hyfforddi o'r fath. | | | | √ | | |
| 12 | 33.14c | [Dylai] pawb [sy'n gweithio mewn ystafell | Cynhaliwyd adolygiad ar ôl i argymhellion cam un Ymchwiliad Tŵr Grenfell gael eu cyhoeddi. Bydd | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | reoli] sydd ar lefel Rheolwr Gweithrediadau Cynorthwyol ac uwch, gael hyfforddiant ar gyfer y gofynion penodol wrth gyfathrebu â rheolwr y digwyddiad. | canlyniadau’r adolygiad yn gysylltiedig â’r hyfforddiant a ddarperir.<br><br>Mae trefniadau ar waith i brofi’r cyfathrebu rhwng Rheolwr y Digwyddiad a’r Uned Rheoli Tân mewn ymarferion. Er enghraifft, ymarfer mewn adeilad uchel iawn yn un o adeiladau’r Heddlu yn Wrecsam, lle’r oedd staff rheoli’n bresennol ac yn cyfrannu at y broses adrodd yn ôl.<br><br>Mae holl aelodau’r Tîm Rheoli yn Swyddogion Cyswllt Rhyngasiantaethol Cenedlaethol, sy’n helpu i sicrhau bod Cyd-raglen Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys ac egwyddorion y model gwneud penderfyniadau yn cael eu defnyddio’n effeithiol. | | | | | | |
| 13 | 33.14d | [Dylid] darparu cysylltiad cyfathrebu pwrpasol rhwng yr uwch swyddog yn yr ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad. | Ar hyn o bryd, mae’r cyfathrebu’n digwydd drwy’r swyddogaeth cymorth rheoli a’r Uned Rheoli Digwyddiadau, os yw’n bresennol. Mae rôl arbenigol bosibl ar gyfer ymgyrchoedd diffodd tân yn cael ei hystyried, er mwyn ei gwneud yn haws i gyfathrebu yn ystod digwyddiad mewn adeilad uchel iawn. | | | | √ | | |
| | | **Galwadau brys** | | | | | | | |
| 17 | 33.15d | [Dylid] datblygu systemau electronig i gofnodi gwybodaeth [cyfarwyddyd | Mae gwaith wedi cael ei wneud i wella’r ffordd o ddelio â galwyr sydd angen cyfarwyddyd goroesi tân, a sut gellir darparu gwybodaeth o’r fath yn y digwyddiad ei hun. Mae gweithdrefnau wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau, os | Gweithrediadau. | Adolygu systemau’r Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith. | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth | | √ | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | goroesi tân] yn yr ystafell reoli, a’i harddangos ar yr un pryd yn y canolbwynt diogel (bridgehead) ac mewn unrhyw unedau rheoli; | derbynnir galwadau ‘gorlif’ lle mae angen cyfarwyddyd goroesi tân, bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio.<br><br>Darperir hyfforddiant gorfodol blynyddol ar gyfarwyddyd goroesi tân, gan gynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer tanau mewn adeiladau uchel iawn. Ar ben hynny, cynhelir ymarferion lle bydd staff yr Uned Rheoli Tân yn bresennol yn y digwyddiad ei hun.<br><br>Mae hyfforddiant sy’n cynnwys Cyd-raglen Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys wedi cael ei ddarparu hefyd. Mae hyn wedi helpu’r cydweithio yn yr ystafell reoli sy’n cael ei rhannu â Heddlu Gogledd Cymru. | | Sail Resymegol – Cael gwybod i ba raddau y gall Uned Rheoli Tân fynd ati’n effeithiol i gyfleu gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân yn uniongyrchol i’r Tîm Rheoli yn y digwyddiad (Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol – Gwybodaeth am Ddigwyddiad). | weithredol yn y digwyddiad ei hun. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 18 | 33.15d | Dylid datblygu polisïau ar gyfer rheoli’r newid o “aros lle’r ydych chi” i “adael yr adeilad”. | Yn ystod diwrnodau datblygu, darperir hyfforddiant i swyddogion dyletswydd hyblyg a rheolwyr ystafelloedd rheoli. Mae gwaith cydweithredol wrthi’n cael ei gynllunio er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru, drwy’r Uned Rheoli Tân ar y Cyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hynny hefyd yn wir am Wasanaethau Tân ac Achub cyfagos yn Lloegr, y bydd angen cymorth arnynt o bosibl i dderbyn galwadau gorlif.<br><br>Bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar ddull gweithredu cyson gyda'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd a Gwasanaethau Tân ac Achub eraill cyfagos. | Gweithrediadau. | Adolygu’r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae perygl y byddai wedi bod yn rhesymol ei rag-weld yn ystod digwyddiad mewn adeilad uchel iawn yn torri’r rheolau rhannu adeiladau’n adrannau, ac yn peryglu’r polisi aros lle'r ydych chi. Y mesur rheoli yn yr amgylchiadau hyn yw gwagio’r adeilad yn rhannol neu’n llawn. Cydnabyddir bod angen i wybodaeth a | Adolygiad bwrdd gwaith o'r athrawiaeth mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Adolygiad bwrdd gwaith o brotocolau cyfathrebu’r Uned | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | thactegau'r mesur rheoli gael eu datblygu'n llawn drwy Ganllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol, cyn eu gwreiddio yn athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub. Fodd bynnag, y disgwyliad yw y dylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub roi arweiniad dros dro i staff Gweithredol a'r Uned Rheoli Tân. | Rheoli Tân a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 19 | 33.15e | [Dylai] staff yr ystafell reoli gael hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â delio â newid y cyngor hwnnw, a chyfleu'r newid yn effeithiol i bobl sy'n ffonio. | Wedi'i gynnwys uchod. | | | | √ | | |
| 20 | 33.16 | [Dylid] cymryd camau i ymchwilio i ddulliau y gall ystafelloedd rheoli cynorthwyol eu defnyddio i gael gafael ar yr wybodaeth sydd ar gael i'r brif ystafell reoli. | Mae trefniadau dwyochrog ar waith gyda'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd er mwyn gallu gweld y systemau galw sy'n cael eu defnyddio yn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (BOSS a CadView).<br><br>Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â Gwasanaethau Tân ac Achub cyfagos yn Lloegr i archwilio'r posibilrwydd o gael trefniadau tebyg. Rydym wrthi'n cydweithio â'r Grŵp Swyddogion Galw gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân i nodi newidiadau posibl mewn arferion gwaith, o ganlyniad i argymhellion cam un Ymchwiliad Tŵr Grenfell. | Gweithrediadau. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae trefniadau cyfeillio'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn caniatáu i'r Uned Rheoli Tân gynorthwyol gael gafael ar wybodaeth am risgiau mewn digwyddiad difrifol. | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol i Uned(au) Rheoli Tân cynorthwyol. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |
| 21 | 33.17 | [Dylai] [Gwasanaeth Ambiwlans Llundain] a'r [Heddlu Metropolitanaidd | Mae cydleoli gydag Uned Reoli Heddlu Gogledd Cymru yn help gyda'r cydweithio. Mae gan glinigydd o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru bresenoldeb ar y | Gweithrediadau. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac archwilio dogfennau'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys i gadarnhau bod yr | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ] adolygu eu protocolau a'u polisïau i sicrhau bod eu swyddogion yn gallu adnabod galwadau [cyfarwyddyd goroesi tân] (fel y'u diffinnir gan Frigâd Dân Llundain), a'u trosglwyddo i Frigâd Dân Llundain cyn gynted â phosibl. | llwyfan gweithredol, sy'n gwella'r cyfathrebu â chydweithwyr Ambiwlans.<br><br>Mae'r nifer cymharol isel o staff sydd ar gael yn achosi heriau o ran delio â galwadau mewn cyfnodau prysur a / neu ddigwyddiadau heriol, nes gellir cael adnoddau ychwanegol i roi cymorth. | | argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Heddlu yn gallu trosglwyddo gwybodaeth am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân i Wasanaethau Tân ac Achub Cymru. | gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Heddlu am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| | | **Rheoli** | | | | | | | |
| 22 | 33.18a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu polisïau a hyfforddiant i sicrhau ei bod yn rheoli trefniadau ac yn defnyddio adnoddau yn well. | Mae rheolwyr dyletswydd hyblyg, sy'n gyfrifol am ddefnyddio adnoddau mewn digwyddiad, wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r model gwneud penderfyniadau a'r broses rheoli penderfyniadau drwy raglenni cychwynnol, parhaus a datblygu. Dyma rai enghreifftiau: dilyn a llwyddo i gyflawni cymhwyster y System Rheoli Digwyddiadau, a chymryd rhan yn y fframwaith sicrhau ymarferion ar gyfer yr ardal. | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae dwy elfen i'r Maes Asesu Allweddol yma. Yn gyntaf, cael gwybod i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn hyfforddi Rheolwyr ar egwyddorion y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol a'r Broses Rheoli Penderfyniadau, sy'n rhan annatod o'r Canllawiau | Adolygiad bwrdd gwaith o'r athrawiaeth sy'n ymwneud â Rheoli Digwyddiadau a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Adolygiad bwrdd gwaith o brosesau rheoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Offer Anadlu, a'i weithdrefnau tactegol i ddiffodd tân a modiwlau | √ | | |
| 23 | 33.18b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu | Mae'r Canllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Offer Anadlu wedi cael eu mabwysiadu'n llawn, yn ogystal | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | polisïau a hyfforddiant i sicrhau bod criwiau sy'n dychwelyd o ddigwyddiad yn darparu gwell gwybodaeth, a bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi mewn ffordd sy'n golygu ei bod ar gael yn syth i reolwr y digwyddiad (ac wedyn i'r unedau rheoli a'r ystafell reoli). | â'r Canllawiau Gweithredu ar gyfer Offer Anadlu.<br><br>Drwy'r Fforwm Dysgu Gweithredol, mae log briff / adrodd yn ôl ar gyfer offer anadlu wedi cael ei ddatblygu, ac mae'n cael ei ddefnyddio bob tro mae offer anadlu'n cael ei wisgo. Mae hyn ar ffurf llyfr dyblyg, sy'n golygu bod modd defnyddio copïau yn ôl yr angen. Mae'r log yn defnyddio mnemonig SMEAC y lluoedd arfog, sef Sefyllfa, Cenhadaeth, Gweithredu, Gweinyddu a Logisteg ynghyd â Chynllun Cyfathrebu. Mae hyn yn cael ei ystyried yn arfer nodedig. | | Sylfaenol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau. Yn nigwyddiad Tŵr Grenfell, ychydig iawn o dystiolaeth oedd – os o gwbl – o ddilyn egwyddorion y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol, nes i'r Comisiynydd Cynorthwyol Roe fod yn bresennol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â chasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau, peryglon ac adnoddau, blaenoriaethu amcanion, a datblygu cynllun tactegol. Mae argymhelliad 22 yn cyfeirio at hyn.<br>Mae'r ail elfen yn cyfeirio'n ôl at argymhellion 5-7, ac mae'n ymwneud llawn cymaint â thechnegau archwiliadau chwilio Offer Anadlu ag y mae'n ymwneud â chyfathrebu. Mae hefyd yn berthnasol i bob math o ddigwyddiad.<br>Mae dau ddull o chwilio; yn ôl cyfeiriad (dilyn cyfeiriad y llaw chwith neu'r llaw dde) neu glirio ystafelloedd. Wrth ddarllen adroddiad Ymchwiliad Tŵr Grenfell, nid yw'n amlwg bod Brigâd Dân Llundain wedi defnyddio'r naill ddull na'r llall yn gyson. Byddai hynny, ynghyd ag absenoldeb unrhyw broses | hyfforddiant cysylltiedig.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 24 | 33.19 | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu system gyfathrebu er mwyn i'r ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad allu cyfathrebu'n uniongyrchol, a gwella'r ffordd y mae rheolwr y digwyddiad a'r canolbwynt diogel yn cyfathrebu â'i gilydd. | Mae'r Uned Rheoli Tân a Rheolwr y Digwyddiad yn defnyddio setiau radio Airwave a ffonau symudol i gyfathrebu.<br><br>O ran cyfathrebu yn y digwyddiad ei hun, yn dilyn adolygiad o argymhellion cam un Ymchwiliad Tŵr Grenfell gan y Fforwm Dysgu Gweithredol, cynhaliwyd rhaglen o brofion mewn adeiladau uchel iawn perthnasol i gadarnhau y gellid sefydlu a chynnal prosesau cyfathrebu. | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | 33.20 | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ymchwilio i'r defnydd o dechnegau cyfathrebu modern i ddarparu llinell gyfathrebu uniongyrchol rhwng yr ystafell reoli a’r canolbwynt diogel, sy’n ei gwneud yn bosibl i drosglwyddo gwybodaeth yn uniongyrchol rhwng yr ystafell reoli a'r canolbwynt diogel. Bydd hefyd yn darparu system integredig o gofnodi gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân a chanlyniadau digwyddiad. | Nid oes cyfleuster ar gael ar hyn o bryd. Gwnaed ymholiadau gyda chyflenwr CadView i ystyried yr opsiynau i wneud gwybodaeth yn fwy hwylus. | | ar gyfer archwiliadau chwilio, yn ei gwneud bron yn amhosibl i’r Swyddog Cyfrifol fod yn ffyddiog bod llawr wedi cael ei wagio – boed hynny ar sail gwybodaeth weithredol a gasglwyd yn y fan a’r lle, gwybodaeth a gafwyd gan yr Uned Rheoli Tân neu drwy alwadau ar y pryd ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Mae argymhellion 23 – 25 yn cyfeirio at hyn. | | | | √ |
| | | **Cyfarpar** | | | | | | | |
| 26 | 33.21a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain weithredu ar frys | Mae gallu cyfathrebu’r Offer Anadlu wedi cael ei uwchraddio, ac mae hynny wedi arwain at wella ansawdd a chryfder y | Gweithrediadau. | Adolygu cyfarpar cymorth rheoli a chyfathrebu’r Gwasanaeth Tân ac Achub i | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | i gael cyfarpar sy'n galluogi diffoddwyr tân sy'n gwisgo helmedau ac offer anadlu i gyfathrebu'n effeithiol â'r canolbwynt diogel, gan gynnwys wrth weithredu mewn adeiladau uchel iawn; | signal. Cafodd hyn ei brofi mewn ymarfer mewn adeilad uchel iawn, ac mae'n cael ei ategu gan wybodaeth o ymarferion eraill a ddangosodd nad oedd cyfathrebu yn broblem. Bydd hyn yn dal i gael ei fonitro yn ystod ymarferion a digwyddiadau gweithredol yn y dyfodol. | | sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio a'i fod yn effeithiol.<br>Adolygu cofnodion hyfforddiant y Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau bod yr holl staff sy'n gorfod cyflawni dyletswyddau cymorth rheoli wedi cael hyfforddiant priodol.<br><br>Sail Resymegol – Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer cymorth rheoli a chyfathrebu yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau gwaith diogel mewn digwyddiadau. | Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol i Uned(au) Rheoli Tân cynorthwyol.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 27 | 33.21b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain weithredu ar frys i sicrhau bod y system cymorth rheoli yn gweithio'n llawn ym mhob uned reoli, a bod criwiau'n cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r system. | Mae cymorth rheoli yn rhan annatod o weithdrefnau, ac yn cael ei fonitro drwy sicrwydd gweithredol. Darperir hyfforddiant i'r holl staff a fydd o bosibl yn gorfod mabwysiadu'r rôl hon, a chafodd ei adolygu'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Canllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol.<br>Mae un Uned Rheoli Digwyddiadau ar waith, ac fe'i defnyddir mewn digwyddiadau mwy o faint a mwy cymhleth. Mae gwaith wedi cael ei wneud i wneud prosesau cyfathrebu'r uned yn fwy cadarn, sydd bellach yn cael ei ategu gan gerbyd lles. | Gweithrediadau. | | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Heddlu am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |

## Ymchwiliad Cyhoeddus Tŵr Grenfell

## Argymhellion Adroddiad Cam 1 a ddewiswyd ar gyfer Asesiad yr Adolygiad Thematig

## Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Deunyddiau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Preswyl Uchel Iawn** | | | | | **Yn Llawn** | **Yn Rhannol** | **Amh** |
| 2 | 33.10b | [Dylai] gwasanaethau tân ac achub sicrhau bod eu staff ar bob lefel yn deall y risg y bydd tân yn ymledu drwy furiau allanol adeiladau uchel iawn, ac yn gwybod sut i adnabod hynny pan fydd yn digwydd. | Cyn tân Grenfell, datblygwyd gweithdrefnau ar gyfer adeiladau uchel iawn i ystyried digwyddiadau blaenorol yn genedlaethol. Roedd y dull gweithredu ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn yn gysylltiedig â datblygu trefn weithredu safonol.<br><br>Yn dilyn tân Grenfell, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl ar gyfer Adeiladau Uchel Iawn. Roedd 'gweithredu'n gyflym' yn enghraifft o'r gwaith cychwynnol a wnaed, lle darparwyd hyfforddiant ar arwyddion a symptomau tân a oedd yn ymledu drwy furiau allanol adeilad uchel iawn. Adeiladwyd ar hyn drwy sicrhau hyfforddiant tân ymarferol mewn adeiladau uchel iawn gyda Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr. | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Os yw Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn seilio'u hathrawiaeth (Trefniadau Gweithredu Safonol) ar Ganllawiau Gweithredu Cenedlaethol, dylai'r perygl hwn – ynghyd â gwybodaeth a thactegau'r mesurau rheoli – gael eu nodi'n benodol mewn Asesiad o'r Risgiau Gweithredol y dylid ei ddefnyddio i ddatblygu'r Drefn Weithredu Safonol. Dylid defnyddio hynny wedyn i lywio canlyniadau dysgu unrhyw hyfforddiant cysylltiedig. | Adolygiad bwrdd gwaith o athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rydym yn ystyried hyn yn enghraifft o ymarfer nodedig.<br><br>Roedd canlyniadau dysgu allweddol yr hyfforddiant hwn yn cynnwys mynd ati'n gynnar i ganfod methiant yr adeilad (rhannu adeiladau i adrannau) a thân yn ymledu'n allanol. Bu'r Grŵp Gorchwyl Adeiladau Uchel Iawn hefyd yn gweithio gyda'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd i enwi gorsafoedd y pennir ymlaen llaw mai nhw sy'n gyfrifol am fod yn bresennol mewn digwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn, er mwyn darparu hyfforddiant iddynt.<br><br>Caiff Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol eu monitro'n barhaus i sicrhau bod trefniadau gweithredu safonol yn adlewyrchu'r gofynion cyfredol, a bod digwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn yn rhan o'r cyrsiau rheoli digwyddiadau dilynol ar bob lefel. Mae perfformiad gweithredol mewn digwyddiadau o'r fath yn cael ei fonitro gan y Tîm Adolygu a Datblygu Gweithredol, a defnyddir y canlyniadau dysgu i ddatblygu newidiadau i weithdrefnau lle bo angen. | | | | | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwybodaeth am ddiffodd tân** | | | | | | | |
| 3 | 33.11a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain adolygu, a diwygio fel y bo’n briodol, Atodiad 1 o PN633 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu’n llawn yr egwyddorion yn Asesiad Risg Cyffredinol 3.2. | Mae trefniant gweithredu safonol ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth weithredol. Mae’r gweithgarwch hwn wedi’i wreiddio’n llawn yn ffrydiau gwaith y Gwasanaeth, gan ddilyn dull y System Darparu Gwybodaeth am Risgiau (PORIS).<br><br>Gan ystyried cymhlethdod casglu gwybodaeth am risgiau mewn perthynas ag adeiladau uchel iawn, mae llyfrau gwaith wedi cael eu datblygu i helpu staff gyda’u gwaith.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr i ddatblygu system feddalwedd bwrpasol i wella’r broses o ddarparu gwybodaeth am risgiau penodol i’r safle, a fydd ar gael yn rhwydd drwy derfynellau data symudol.<br><br>Y weledigaeth hirdymor yw bod gwybodaeth weithredol a gwybodaeth am Ddiogelwch Tân mewn Busnesau a Diogelwch Cymunedol i gyd ar gael o dan un cyfeirnod eiddo unigryw. | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith. Sail Resymegol – PN633 yw Trefn Weithredu Safonol Brigâd Dân Llundain ar gyfer Adeiladau Uchel Iawn. Bydd adolygiad o Drefniadau Gweithredu Safonol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, a’u polisïau Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle, yn dangos i ba raddau y mae Trefniadau Gweithredu Safonol yn sail i brosesau casglu Gwybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle, ac yn integreiddio â’r prosesau hynny. Dylai’r Drefn Weithredu Safonol nodi’r mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer peryglon a risgiau er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol i’r holl staff gweithredol. Dylai’r Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle a’r cynllun gweithredol cysylltiedig adeiladu ar hyn gyda gwybodaeth weithredol sy’n benodol i’r safle. Mae Atodiad 1 o PN633 yn rhoi arweiniad ar | Adolygiad bwrdd gwaith o athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Adolygiad bwrdd gwaith o bolisi'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, a’r canllawiau cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 33.11b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain sicrhau bod pob swyddog ar lefel Rheolwr Criw ac uwch wedi cael ei hyfforddi i gyflawni gofynion PN633 sy’n ymwneud ag archwilio adeiladau uchel iawn. | Darperir hyfforddiant i holl staff y Rheolwr Criw ac uwch, lle ceir canllawiau penodol o ‘Lawlyfrau Gwybodaeth Weithredol ar gyfer Digwyddiadau’ sy’n rhoi manylion nodweddion dylunio mewn systemau diffodd tân a pheirianneg tân adeiledig. Mae’r canllawiau hyn yn cael eu hategu drwy ddarparu llyfrynnau penodol ar gyfer adeiladau uchel iawn.<br><br>Lle bo angen, cynhelir ymweliadau ychwanegol â safleoedd risg uwch er mwyn bod yn fwy cyfarwydd â nhw. Gall cymorth mewn arolygiadau gael ei ddarparu gan swyddog Diogelwch Tân mewn Busnesau hefyd, a fydd yn gallu defnyddio ei wybodaeth arbenigol i ddadansoddi risgiau. | | y math o wybodaeth am beryglon y dylid ei chasglu mewn archwiliad Gwybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle. Mae’r Maes Asesu Allweddol yma’n ceisio gweld i ba raddau y mae hyn wedi’i nodi’n benodol ym mholisi Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, ac os yw wedi’i nodi, i ba raddau y mae’n cael ei ddilyn yn ymarferol.<br>Yn ystod digwyddiad Tŵr Grenfell, nid oedd rhag-gynllun gweithredol wedi’i gynnwys yn yr Wybodaeth am Risgiau Penodol i’r Safle, ac roedd hynny wedi cyfrannu at y ffaith nad oedd unrhyw amcanion penodol na chynllun tactegol cydlynol ar y noson. | | √ | | |
| | | **Cynlluniau** | | | | | | | |
| 7 | 33.12 | [Dylai] pob gwasanaeth tân ac achub allu derbyn a storio cynlluniau electronig, a sicrhau eu bod ar gael i reolwyr ystafelloedd | Roedd y tîm Lluniadu â Chymorth Cyfrifiadur wedi cael y dasg o ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr holl adeiladau uchel iawn, a sicrhau bod y cynlluniau hynny ar gael at ddefnydd gweithredol. Roedd tua 75% o’r gwaith wedi’i gwblhau ar yr adeg y darparwyd y cyflwyniad. | Gweithrediadau. | Adolygu systemau’r Gwasanaeth Tân ac Achub i weld i ba raddau y mae’r argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae cynlluniau llawr yn elfen hanfodol o Wybodaeth am | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y digwyddiad ei hun. | | √ | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | rheoli a rheolwyr digwyddiadau. | Yr amserlen a ragwelir ar gyfer cwblhau'r gwaith yw deuddeg mis. | | Risgiau Penodol i'r Safle, ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal archwiliadau chwilio trylwyr (cyfeirir at hyn yn fanwl isod, o dan y sail resymegol dros gynnwys Argymhellion 23 – 25). | Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| | | **Lifftiau diffodd tân** | | | | | | | |
| 8 | 33.13a | [Dylai] fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod perchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn yn cynnal archwiliadau rheolaidd o unrhyw lifftiau sydd wedi'u dylunio i gael eu defnyddio gan ddiffoddwyr tân mewn argyfwng, ac yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'w gwasanaeth tân ac achub lleol bob mis. | Mae lifftiau diffodd tân yn cael eu harchwilio fel rhan o broses archwilio Diogelwch Tân mewn Busnesau i sicrhau y cydymffurfir â'r Gorchymyn Diogelwch Tân. Caiff y gofynion eu hegluro'n glir i'r Person sy'n Gyfrifol am y safle fel rhan o'r broses archwilio.<br><br>Os canfyddir bod lifft yn ddiffygiol yn ystod archwiliad, bydd ffurflen risg Diffoddwyr Tân yn cael ei llenwi i roi gwybod i'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd, a fydd wedyn yn 'tagio' ac yn sicrhau bod yr wybodaeth ar gael drwy'r daflen ryddhau a'r derfynell data symudol. Yn yr un modd, os caiff diffygion eu canfod gan staff gweithredol drwy'r broses casglu gwybodaeth am risgiau penodol i'r safle, bydd ffurflen cyfnewid gwybodaeth yn cael ei llenwi a'r un camau'n cael eu cymryd gan yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd. | Polisi. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub i weld i ba raddau y mae'r argymhellion hyn wedi cael sylw, gan fod Erthygl 38 o'r Gorchymyn Diogelwch Tân eisoes yn mynnu hyn.<br><br>Sail Resymegol – gweld i ba raddau y gall Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru rannu'r wybodaeth hon â chriwiau sy'n ymateb er mwyn llywio cynlluniau wrth gefn (mynd ymhellach na dim ond nodyn ar y system alw i hysbysu criwiau wrth iddynt ymateb, a mynd ati i addasu unrhyw gynllun tactegol sydd wedi'i gynnwys yn yr Wybodaeth am Risgiau Penodol i'r Safle ar gyfer yr adeilad). | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y digwyddiad ei hun, gan gynnwys sut mae newidiadau dros dro mewn proffiliau peryglon a risgiau yn cael eu cyfleu i staff Gweithredol. Adolygiad bwrdd gwaith o arferion gwaith yr Orsaf. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| 9 | 33.13b | [Dylai] fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod perchennog a rheolwr pob adeilad preswyl uchel iawn yn cynnal profion rheolaidd ar y peirianwaith sy’n galluogi diffoddwyr tân i reoli’r lifftiau, ac yn rhoi gwybod i’w gwasanaeth tân ac achub lleol yn fisol ei fod wedi gwneud hynny. | Wedi’i gynnwys uchod. | | | | √ | | |
| | | **Rheoli – cyfathrebu yn ystod digwyddiadau** | | | | | | | |
| 10 | 33.14a | Dylai Brigâd Dân Llundain adolygu ei pholisïau ar gyfathrebu rhwng yr ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad. | Drwy hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol (Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr), mae cyfathrebu wedi’i nodi fel maes allweddol ac mae ei ddefnydd yn gyson â’r Model Gwneud Penderfyniadau. Mae enghreifftiau o feysydd sy’n cael sylw yn ystod yr hyfforddiant yn cynnwys cyfarwyddyd penodol ar oroesi tân mewn adeiladau uchel iawn, a chanfod methiannau’r | Gweithrediadau. | Adolygu systemau Technoleg Gwybodaeth ac athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i gael gwybod i ba raddau y mae’r argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn hyfforddi Rheolwyr ar ddefnyddio egwyddorion y Model | Adolygiad bwrdd gwaith o’r athrawiaeth sy’n ymwneud â Rheoli Digwyddiadau a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Adolygiad bwrdd gwaith o brotocolau cyfathrebu’r Uned Rheoli Tân a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | adeilad ar sail gwybodaeth y galwr.<br><br>Mae negeseuon fel arfer yn cael eu cyfleu drwy setiau radio Airwave – y dull a dderbynnir – gan y swyddogaeth cymorth rheoli drwy'r Uned Reoli, os yw'n bresennol.<br><br>Mae hyfforddiant ystafell reoli wedi cael ei ddarparu ar gyfer Rheolwyr Gorsafoedd a Grwpiau, er mwyn gwella'r opsiynau cyfathrebu mewn digwyddiad mawr. | | Gwneud Penderfyniadau Gweithredol, mewn perthynas â Chyfathrebu a Rheoli yn benodol.<br>Cael gwybod i ba raddau y gall Rheolwyr a'r Uned Rheoli Tân gyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. | Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 11 | 33.14b | Mae'r holl swyddogion y gellid disgwyl iddynt weithredu fel rheolwyr digwyddiadau (hy, pawb sydd ar lefel uwch na Rheolwr Criw) yn cael hyfforddiant ar gyfer y gofynion penodol wrth gyfathrebu â'r ystafell reoli; | Darperir hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol gan y Grŵp Gorchwyl Adeiladau Uchel Iawn a gefnogir gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau. Caiff sgiliau eu hasesu yn ystod asesiadau Rheoli Digwyddiadau.<br><br>Darparwyd hyfforddiant hefyd i staff yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd ar sefydlu proses gyfathrebu effeithiol gyda Rheolwr y Digwyddiad, sy'n ei gwneud yn bosibl i drosglwyddo gwybodaeth berthnasol i'r digwyddiad ei hun i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau priodol. | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | 33.14c | [Dylai] pawb [sy’n gweithio mewn ystafell reoli] sydd ar lefel Rheolwr Gweithrediadau Cynorthwyol ac uwch, gael hyfforddiant ar gyfer y gofynion penodol wrth gyfathrebu â rheolwr y digwyddiad. | Mae hyfforddiant wedi’i ddarparu’n benodol ar gyfer galwadau brys sy’n ymwneud â digwyddiadau mewn adeiladau uchel iawn, gydag elfennau’n canolbwyntio ar gynnwys cyfarwyddyd goroesi tân a strategaethau gwagio adeilad. Mae'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd yn gweithio’n genedlaethol ar y broses o ddatblygu cymhwyster rheoli digwyddiadau ar gyfer Goruchwylwyr Rheoli. | | | | √ | | |
| 13 | 33.14d | [Dylid] darparu cysylltiad cyfathrebu pwrpasol rhwng yr uwch swyddog yn yr ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad. | Mae gan Reolwr y Digwyddiad gysylltiad uniongyrchol â’r Uned Rheoli Tân ar y Cyd drwy setiau radio sydd wedi’u gosod ar yr injan dân. Os yw Rheolwr y Digwyddiad yn Rheolwr Tactegol, bydd ganddo ei radio Airwave personol ei hun. Mewn digwyddiadau cymhleth, gan gynnwys rhai mewn adeiladau uchel, bydd yr Uned Rheoli Digwyddiadau yn bresennol, er mwyn gallu cyfathrebu’n well. | | | | √ | | |
| | | **Galwadau brys** | | | | | | | |
| 17 | 33.15d | [Dylid] datblygu systemau electronig i gofnodi | Mae’r cysylltiadau cyfathrebu sydd ar waith yn dod drwy setiau radio Airwave personol, setiau radio sydd wedi’u gosod | Gweithrediadau. | Adolygu systemau’r Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau bod yr | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu’r trefniadau ar | | √ | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwybodaeth [cyfarwyddyd goroesi tân] yn yr ystafell reoli, a'i harddangos ar yr un pryd yn y canolbwynt diogel (bridgehead) ac mewn unrhyw unedau rheoli; | ar yr injan dân a thrwy'r Uned Rheoli Digwyddiadau. Bydd Ystafell Reoli hefyd yn cael ei sefydlu ar gyfer digwyddiadau penodol, a fydd yn golygu bod modd cyfathrebu'n uniongyrchol â Rheolwr y Digwyddiad.<br><br>. | | argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Cael gwybod i ba raddau y gall Uned Rheoli Tân fynd ati'n effeithiol i gyfleu gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân yn uniongyrchol i'r Tîm Rheoli yn y digwyddiad (Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol – Gwybodaeth am Ddigwyddiad). | gyfer darparu gwybodaeth weithredol yn y digwyddiad ei hun. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| 18 | 33.15d | Dylid datblygu polisïau ar gyfer rheoli'r newid o "aros lle'r ydych chi" i "adael yr adeilad". | Mae tudalen Gwybodaeth Gyffredinol ar gael i staff Rheoli gyfeirio ati i weld y cyfarwyddyd goroesi tân mewn adeilad uchel iawn. Mae'r cyfarwyddyd wedi cael ei adolygu yn dilyn cyhoeddi argymhellion cam un Ymchwiliad Tŵr Grenfell.<br><br>Mae staff Rheoli wedi cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gofyn am yr wybodaeth berthnasol gan y galwyr. Gellir trosglwyddo'r wybodaeth hon wedyn i'r digwyddiad ei hun ar frys, os yw'n dangos bod y sefyllfa'n dirywio ac efallai fod angen newid tactegau.<br>Mae hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddatblygu i'r Tîm Rheoli ar gyfer rheoli digwyddiadau mewn adeiladau | Gweithrediadau. | Adolygu'r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae perygl y byddai wedi bod yn rhesymol ei rag-weld mewn digwyddiad mewn adeilad uchel iawn yn torri'r rheolau rhannu adeiladau'n adrannau, ac yn peryglu'r polisi aros lle'r ydych chi. Y mesur rheoli yn yr amgylchiadau hyn yw gwagio'r adeilad yn rhannol neu'n llawn. Cydnabyddir bod angen i wybodaeth a thactegau'r mesur rheoli gael eu datblygu'n llawn drwy Ganllawiau Galwedigaethol | Adolygiad bwrdd gwaith o'r athrawiaeth mewn perthynas â Gweithrediadau, Tanau a Diffodd Tân, Tanau mewn adeiladau, Tanau mewn adeiladau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu neu eu dymchwel, a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Adolygiad bwrdd gwaith o brotocolau cyfathrebu'r Uned Rheoli Tân a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig. Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | uchel iawn, a darparu cefnogaeth i Reolwr y Digwyddiad. | | Cenedlaethol, cyn eu gwreiddio yn athrawiaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub. Fodd bynnag, y disgwyliad yw y dylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub roi arweiniad dros dro i staff Gweithredol a'r Uned Rheoli Tân. | | | | |
| 19 | 33.15e | [Dylai] staff yr ystafell reoli gael hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â delio â newid y cyngor hwnnw, a chyfleu'r newid yn effeithiol i bobl sy'n ffonio. | Wedi'i gynnwys uchod. | | | | √ | | |
| 20 | 33.16 | [Dylid] cymryd camau i ymchwilio i ddulliau y gall ystafelloedd rheoli cynorthwyol eu defnyddio i gael gafael ar yr wybodaeth sydd ar gael i'r brif ystafell reoli. | Mae gwaith datblygu wedi cael ei wneud o ganlyniad i ddadansoddiad o'r bylchau. Mae rhai o'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer delio â nifer fawr o alwadau sydd angen cyfarwyddyd goroesi tân yn cynnwys grwpio galwadau mewn galwad gynadledda, ac ailgyfeirio galwadau i swyddogion yr Heddlu sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Uned Rheoli Tân ar y Cyd. | Gweithrediadau. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae trefniadau cyfeillio'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn caniatáu i'r Uned Rheoli Tân gynorthwyol gael gafael ar wybodaeth am risgiau mewn digwyddiad difrifol. | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol i Uned(au) Rheoli Tân cynorthwyol.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |
| 21 | 33.17 | [Dylai] [Gwasanaeth | Mae angen ymchwilio ymhellach cyn bwrw ymlaen â'r | Gweithrediadau. | Adolygu systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth | | √ | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ambiwlans Llundain] a’r [Heddlu Metropolitanaidd] adolygu eu protocolau a’u polisïau i sicrhau bod eu swyddogion yn gallu adnabod galwadau [cyfarwyddyd goroesi tân] (fel y’u diffinnir gan Frigâd Dân Llundain), a’u trosglwyddo i Frigâd Dân Llundain cyn gynted â phosibl. | argymhelliad hwn, gyda’r awgrym y gallai Grŵp Digwyddiadau Niweidiol y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wneud y gwaith hwn.<br><br>Disgwylir y bydd Swyddogion Rheoli Heddlu De Cymru yn cael hyfforddiant ar gyfarwyddyd goroesi tân drwy gydol 2020. | | ac archwilio dogfennau’r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys i gadarnhau bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – cael gwybod i ba raddau y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a’r Heddlu yn gallu trosglwyddo gwybodaeth am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân i Wasanaethau Tân ac Achub Cymru. | Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a’r Heddlu am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |
| | | **Rheoli** | | | | | | | |
| 22 | 33.18a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu polisïau a hyfforddiant i sicrhau ei bod yn rheoli trefniadau ac yn defnyddio adnoddau yn well. | Mae adnoddau’n cael eu defnyddio a’u rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Rheoli Digwyddiadau, gyda mewnbwn yn cael ei ddarparu ar gyrsiau rheoli digwyddiadau ar bob lefel. Mae hyn yn cael ei asesu ar gyfer rheolwyr tactegol ar lefelau dau a thri. | Gweithrediadau. | Adolygu’r athrawiaeth weithredol i gadarnhau bod yr argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>Sail Resymegol – Mae dwy elfen i’r Maes Asesu Allweddol yma. Yn gyntaf, cael gwybod i ba raddau y mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn hyfforddi Rheolwyr ar egwyddorion y | Adolygiad bwrdd gwaith o’r athrawiaeth sy’n ymwneud â Rheoli Digwyddiadau a modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Adolygiad bwrdd gwaith o brosesau rheoli’r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Offer Anadlu, a’i weithdrefnau tactegol i ddiffodd tân a | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | 33.18b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu polisïau a hyfforddiant i sicrhau bod criwiau sy'n dychwelyd o ddigwyddiad yn darparu gwell gwybodaeth, a bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi mewn ffordd sy'n golygu ei bod ar gael yn syth i reolwr y digwyddiad (ac wedyn i'r unedau rheoli a'r ystafell reoli). | Disgwylir i aelodau'r criw drosglwyddo gwybodaeth allweddol am risgiau i un ai rheolwr sector neu i reolwr y digwyddiad, fel y bo'n briodol, pan ddaw gwybodaeth o'r fath ar gael. Gwneir hyn naill ai drwy gyfathrebu ar y radio neu wyneb yn wyneb.<br><br>Mae pwysigrwydd cael gwybodaeth gan griwiau sy'n dychwelyd o ardal risg yn cael sylw yn ystod y cyrsiau ar adeiladau uchel iawn yng Ngwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae hyn yn arfer safonol ar draws y Gwasanaeth, ac mae'n cyd-fynd â chynnwys a gofynion cyrsiau ar offer anadlu. | | Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol a'r Broses Rheoli Penderfyniadau, sy'n rhan annatod o'r Canllawiau Sylfaenol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau. Yn nigwyddiad Tŵr Grenfell, ychydig iawn o dystiolaeth oedd – os o gwbl – o ddilyn egwyddorion y Model Gwneud Penderfyniadau Gweithredol, nes i'r Comisiynydd Cynorthwyol Roe fod yn bresennol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â chasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau, peryglon ac adnoddau, blaenoriaethu amcanion, a datblygu cynllun tactegol. Mae argymhelliad 22 yn cyfeirio at hyn.<br>Mae'r ail elfen yn cyfeirio'n ôl at argymhellion 5-7, ac mae'n ymwneud llawn cymaint â thechnegau archwiliadau chwilio Offer Anadlu ag y mae'n ymwneud â chyfathrebu. Mae hefyd yn berthnasol i bob math o ddigwyddiad. Mae dau ddull o chwilio; yn ôl cyfeiriad (dilyn cyfeiriad y llaw chwith neu'r llaw dde) | modiwlau hyfforddiant cysylltiedig.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |
| 24 | 33.19 | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ddatblygu system gyfathrebu er mwyn i'r ystafell reoli a rheolwr y digwyddiad allu cyfathrebu'n uniongyrchol, a gwella'r ffordd y mae rheolwr y digwyddiad a'r | Mae Rheolwr y Digwyddiad a'r Ystafell Reoli yn cyfathrebu â'i gilydd drwy'r swyddogaeth cymorth rheoli, gyda'r Uned Rheoli Digwyddiadau yn gwella'r broses honno os yw'n bresennol.<br><br>Os yw Rheolwr y Digwyddiad yn Rheolwr Tactegol, bydd ganddo ei radio Airwave personol ei hun, a bydd yn gallu | | | | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | canolbwynt diogel yn cyfathrebu â’i gilydd. | cyfathrebu’n uniongyrchol â’r Uned Rheoli Tân ar y Cyd. | | neu glirio ystafelloedd. Wrth ddarllen adroddiad Ymchwiliad Tŵr Grenfell, nid yw’n amlwg bod Brigâd Dân Llundain wedi defnyddio’r naill ddull na’r llall yn gyson. Byddai hynny, ynghyd ag absenoldeb unrhyw broses ar gyfer archwiliadau chwilio, yn ei gwneud bron yn amhosibl i’r Swyddog Cyfrifol fod yn ffyddiog bod llawr wedi cael ei wagio – boed hynny ar sail gwybodaeth weithredol a gasglwyd yn y fan a’r lle, gwybodaeth a gafwyd gan yr Uned Rheoli Tân neu drwy alwadau ar y pryd ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Mae argymhellion 23 – 25 yn cyfeirio at hyn. | | | | |
| 25 | 33.20 | [Dylai] Brigâd Dân Llundain ymchwilio i'r defnydd o dechnegau cyfathrebu modern i ddarparu llinell gyfathrebu uniongyrchol rhwng yr ystafell reoli a’r canolbwynt diogel, sy’n ei gwneud yn bosibl i drosglwyddo gwybodaeth yn uniongyrchol rhwng yr ystafell reoli a'r canolbwynt diogel. Bydd hefyd yn darparu system integredig o gofnodi gwybodaeth am gyfarwyddyd goroesi tân a chanlyniadau digwyddiad. | Nid yw hyn yn bosibl ar gyfer y cyfleuster hwn, ac nid oes bwriad i greu cysylltiad uniongyrchol rhwng y canolbwynt diogel a’r Uned Rheoli Tân ar y Cyd, blaen bwyntiau rheoli (injans tân) neu’r Uned Rheoli Digwyddiadau. | | | | | | √ |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| | | **Cyfarpar** | | | | | | | |
| 26 | 33.21a | [Dylai] Brigâd Dân Llundain weithredu ar frys i gael cyfarpar sy’n galluogi diffoddwyr tân sy’n gwisgo helmedau ac offer anadlu i gyfathrebu’n effeithiol â’r canolbwynt diogel, gan gynnwys wrth weithredu mewn adeiladau uchel iawn; | Mae cyfarpar cyfathrebu offer anadlu wedi cael ei uwchraddio i fod yn ddigidol. Mae’r setiau offer anadlu newydd gan Dräger yn cynnwys technegau cyfathrebu sydd wedi’u gosod yn barod, ac sy’n defnyddio’r setiau radio digidol / analog diweddaraf. Caiff pecynnau aildrosglwyddo eu cario yn yr Uned Rheoli Digwyddiadau i wella’r signal, pan fydd angen.<br><br>Maen nhw’n cael eu profi yn ystod ymgyrchoedd diffodd tân ac yn yr amgylchedd hyfforddi er mwyn sicrhau eu bod yn ddibynadwy – mae hyn yn cynnwys eu defnyddio mewn adeiladau uchel iawn. | Gweithrediadau. | Adolygu cyfarpar cymorth rheoli a chyfathrebu’r Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio a’i fod yn effeithiol.<br>Adolygu cofnodion hyfforddiant y Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau bod yr holl staff sy’n gorfod cyflawni dyletswyddau cymorth rheoli wedi cael hyfforddiant priodol.<br><br>Sail Resymegol – Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer cymorth rheoli a chyfathrebu yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau gwaith diogel yn ystod digwyddiadau. | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth weithredol i Uned(au) Rheoli Tân cynorthwyol.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br>Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | √ | | |
| 27 | 33.21b | [Dylai] Brigâd Dân Llundain weithredu ar frys i sicrhau bod y system cymorth rheoli yn gweithio’n llawn ym mhob uned reoli, a bod criwiau’n cael hyfforddiant ar ddefnyddio’r system. | Mae rheolwyr gweithredol ar bob lefel yn ymgymryd â hyfforddiant rheoli digwyddiadau ac yn cael eu hasesu bob tair blynedd.<br><br>Mae un Uned Rheoli Digwyddiadau ar gael ac mae ei chriw yn cynnwys staff sy’n gymwys yn y swyddogaeth cymorth rheoli. Caiff waledi’r system rheoli digwyddiadau eu cludo ar bob injan pwmpio dŵr rheng flaen, ac fe’u defnyddir | Gweithrediadau. | | Adolygiad bwrdd gwaith o ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a’r Heddlu am alwadau ynghylch cyfarwyddyd goroesi tân.<br>Trafodaethau â staff perthnasol y Gwasanaeth Tân ac Achub. | √ | | |

| | Paragraff | Argymhelliad | Crynodeb o’r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Math | Prif Feysydd Asesu | Y Dystiolaeth Angenrheidiol | Cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn unol â’r drefn weithredu safonol berthnasol. | | | Ymweliadau â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ôl yr angen. | | | |